

ECO'R WYDDFA

RHIF 80

EBRILL 1983

Pris 20c.

TORRI TIR NEWYDD

PLANT YN GYFRIFOL



Dyma nhw, newyddiadurwyr yr Eco yn ysgol Tanycoed, Penisarwaun, wrthi'n brysur yn "gosod" eu gwaith. Cawsant hwyl arni hefyd, fel y gwelwch, os throwch i'r tudalennau canol.

Rydym wedi cael tudalennau i blant o'r blaen yn yr Eco; fe gofiwch, efallai, y comic 'Hebog' yn y rhifynnau cynharaf ac yn ddiweddar dudalen Dyfrin y Dewin. Rydym hefyd wedi cael ambell stori a darnau o farddoniaeth. Ond dyma'r tro cyntaf inni gael tudalennau cyfan gan blant – a hwythau nid yn unig wedi paratoi'r deunydd ond hefyd wedi gwneud y gwaith ymarferol o'i olygu, ei gynllunio a'i osod eu hunain.

YN Y RHIFYN hwn o'r Eco, mae plant ysgol Tanycoed, Penisarwaun wedi dechrau traddodiad. Hwyl sydd biau'r tudalennau canol.

Tua mis yn ôl cawsant y cyfrifoldeb o ofalu am ddwy dudalen o'r Eco. Rhoddwyd ar ddeall iddynt, drwy bennaeth yr ysgol, mai hwy oedd i baratoi'r deunydd ysgrifenedig, gwneud lluniau, posau, cwis, jôcs. Cawsant fenthyg camera'r Eco, sy'n hawdd iawn i'w ddefnyddio, i dynnu pa bynnag lluniau y byddent eu hangen. Casglwyd eu holl waith ac aethpwyd ag o i'r wasg. Ar ôl derbyn copi teipiedig o'u gwaith yn ôl (a oedd nawr mewn sribedi hir o led colofnau'r Eco), y dasg ddiddorol, newydd o'u blaenau oedd cynllunio'r

tudalennau – rhoi penawdau, cywiro gwallau printio, rhoi sylwadau ar luniau, ffitio'r lluniau – hynny yw "gosod" y gwaith yn y ffurf a welwch chi'r darllenwyr. Yna, yn ôl eto i'r wasg i'w osod yn ddaclus a therfynol.

Clywsom iddynt fynd at y dasg gyda brwdfrydedd mawr. Ein diolch i blant Penisarwaun am eu cyfraniad pwysig, ac hefyd i'r Pennaeth, Mr Len Jones, am ei gefnogaeth a'i barodrwydd i ymgymeryd â'r fenter.

Bydd rhai o blant bob ysgol yn yr ardal yn cael y cyfle yn eu tro i fod yn gyfrifol am dudalennau canol yr Eco.

CLWB YFED I LANRUG?

A'R ECO i fynd i'r wasg, daeth stori i'n sylw sy'n barod wedi achosi pryder ym meddyliau trigolion stâd Glan Moelyn yn Llanrug, – ac yn un a fydd yn sicr o godi cynnen yn y pentref a'r ardal yn y dyfodol agos.

Ymddengys fod Clwb Yfed trwyddedig i'w godi ar safle hen ysgol Glan Moelyn gyda man parcio i ddeugain o geir o'i flaen.

Nid oedd amser yn caniatáu i ni ymchwilio i'r honiad ond deallwn fod yr hen ysgol a'r tir wedi eu gwerthu ddwywaith ers yr amser pan gafwyd Cyfarfod Cyffredinol yn Llanrug i drafod dyfodol y lle.

Gŵr busnes o Wigan sydd wedi bod yn dod i'r ardal yn rheolaidd ar wyliau, yw'r perchennog newydd.

Daeth y stori i'n sylw ar ôl i ŵr o Lanrug fod yn sgwrsio â syrfewyr a welodd yn mesur o amgylch yr hen ysgol.

Gobeithio y gallwn ddadlennu rhagor o wybodaeth yn ein rhifyn nesa'.

EISTEDDFOD CWM



Rhai o'r plant a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cwm-Y-Clo nos Wener 25 Mawrth. Rhagor o luniau tu mewn.

YMWELD Â'U HEIDDO -YN Y BEUDY!



Plant Saron o ysgol Bethel mewn beudy yn Seion, gyda Mr a Mrs Kettle, y ffermwr a'i wraig sy'n gofalu am eu heiddo. Throwch i dudalen 3.

Tynnu Lluniau Dros Fôr Iwerddon

DYNA'N UNION fu Nia Lloyd Hughes o Lanrug yn ei wneud yn ystod yr wythnos 21-28 Mawrth. Treuliodd amser ar fwrdd fferi'r Sealink, y Sant Columba yn cofnodi drwy frasluniau a darluniau adwaith y teithwyr a'r criw yn ystod y mordeithiau.



Mae'r cynllun yn rhan o bolisi Cangen Bethesda o Gymdeithas Arlunwyr a Dylunwyr yng Nghymru i leoli arlunwyr mewn diwydiant. Ar ôl dod i gytundeb â Sealink Ltd., noddwyd y cynllun gan Gymdeithas Celfyddydau Gogledd Cymru.

Bydd y manylion a gasglodd Nia yn cael eu datblygu yn gyfres o ddarluniau a phrintiau a'u harddangos ar fwrdd y llong, yna yn Llyfgell Caergybi ac yna yn Oriel Capel y Tabernacl, Bethesda. Mae cynlluniau ar y gweill i fynd â'r arddangosfa i Dun Loaghaire a Dilyn.

(Parhad ar dudalen 3)

**Cynhelir
CYFARFOD BLYNYDDOL
CYFFREDINOL
ECO'R WYDDFA**

**Nos Fawrth Ebrill 5ed
am 7.00**

**YN NEUADD YR EGLWYS
WAUNFAWR**

Croeso cynnes i bob un sydd â diddordeb yn yr 'Eco'

ECO'R WYDDFA

RHIF 80
EBRILL 1983

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhyallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BETWYS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO:

DEINIOLLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

EBRILL 28

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

EBRILL 19

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

GAIR O AWSTRALIA

Annwyl Olygydd,

Ateb yw y llythyr hwn i
gwestiwn Mrs Betty Jones, Pen y
Buarth, Bethel yn rhifyn 79 o
Eco'r Wyddfa "Tybed a oes
darllenwyr pell eraill i'r 'Eco'?"

Ar ddarllen yr Eco
penderfynais yn y fan a'r lle bod
rhaid ateb y cwestiwn.

Yn Sydney N.S.W., Awstralia
mae fy nghartref i ers
blynnyddoedd bellach. Bydd fy
mam a 'nhad, sef Mr a Mrs G.D.
Williams, 44 Maes Barcer,
Caernarfon yn gofalu fod yr Eco
yn cyrraedd Awstralia pob mis yn
ddi-ffael.

Mi fydda i a fy ngŵr (Eurwyn
Siop Bren, Llanrug) a'n tri
plentyn yn darllen yr Eco o glawr
i glawr ac yn cael llawer iawn o
bleser ohono. Ar wahân i'r plaser
yr ydym yn ei gael o ddarllen yr
Eco, mae'r papur bach yn fantais
mawr i ni i gadw ein hiaith
Gymraeg yn fyw ar ein haelwyd
yn Awstralia.

Ar wahân i fy nheulu bach i yn
Awstralia mi wn fod Mr a Mrs
Huw Alun Jones, Ceunant,
Llanrug gynt yn derbyn yr Eco
hefyd, Mr a Mrs Harry Lewis,
gynt o ochrau Deiniolen. Bydd
Will John Hughes gynt o Lanrug
yn teithio drigain milltir o
Woolagong i'n gweld ni, a'i
gwestiwn cyntaf bob amser ydi,
"Wyt ti wedi cael yr 'Eco'?"

Cefais y ffrainc o ddarllen rhifyn
79 yr Eco yn fy Hen Gynefin cyn
cychwyn yn ôl ar fy nhaith i
Awstralia.

Dros Gymry ar Wasgar
Awstralia dymunaf pob
llwyddiant i chwi i gyd sydd yn
gweithio mor galed i gadw Eco'r
Wyddfa.

Yr eiddoch yn gywir,

Grace Roberts,
16 Wyalong St.,
Panania 2213,
Sydney, NSW
Awstralia

Llyfr ar drin car

Mae'n ffridiad gan Y Lolfa i
gyhoeddi llyfr o'r enw "Câr dy
Gar". Prif bwrpas y llyfr fydd
cynnig cynghorion syml ac
ymarferol ar beth i'w wneud pan
mae'r car yn torri lawr.

Bydd y llyfr yn cynnwys adran
fecanyddol, ond eich cyfraniad chi
fydd y rhan helaethaf ohono —
geiriau o gyngor ac o rybudd ar sail,
efallai, ambell i brofiad chwerw!

Gwahodddwn chi felly i anfon
cyfraniad rhwng 100 a 1,000 o
eiriau at y cyfeiriad isod erbyn 1
Mehefin 1983. Croeso i luniau
hefyd.

Bydd Y Lolfa'n gwobrwyo'r deg
gorau, ond eich prif wobwr fydd cael
cyfrannu i'r llyfr cyntaf gwreiddiol
Cymraeg a Chymreig ar drin car.
Derwch â nhw!

Wil Sam
Tyddyn Gwyn
Rhoslan
Cricieth
Ffôn: 076671-2541

CAPELI LLANBERIS

Annwyl Olygydd,

Trist oedd gweld Gorffwysfa wedi ei
chwalu. Hen gapel John Pritchard,
M.A. a John Lewis Bach a Griffith
Davies Stryd Siarlot a llawer o hen
gyfeillion.

Yr oeddwn i yn aelod yn Preswylfa
lle'r oedd fy nhaid John R. Jones yn
arweinydd y gân am lawer blwyddyn.
Preswylfa a'r Clegir yn daith. Byddai
gan fwyaf o'r pregethwyr yn aros gyda
ni yn London House.

Nid oedd capel Clegir yn hawdd ei
ganfod a bwm lawer tro yn danfon y
cennad yno ar bawn Sul. Cerdded ryw
ddwy filltir heibio Tŷ Du, a dod at
dyddyn o'r enw Groeslon, lle roedd
John Thomas yn byw gyda'i fam. Ef
oedd organydd Clegir. Yna troi i fyny i
gyfeiriad Pen Gwaith a gweld tŷ go hir
wedi ei wyngalchu. Dyna'r capel. Gan
fod drws y capel tu draw, yr oedd yn
hawdd iawn mynd heibio heb ei
ganfod. Tad yr Henadur R.H. Owen
a'i frawd oedd y ddau flaenor fu'n
addoli yno am flynyddoedd. Aeth fy
chwaer Rhiwen un tro i ddanfon y
pregethwr. Daethant gartre yn siomedig
wedi methu gweld y lle.

Emlyn Jones
Borth y Gest

GALW HYSBYSEBWYR

Annwyl Olygydd,

Fel rhan o weithgareddau PESDA
ROC, byddwn yn cyhoeddi record
E.P. 12" ar label 'Pesda Roc' gan y
grŵp 'Maffia Mr Huws' o Fethesda.
Bwriedir nodd i'r record drwy gynnig
lle hysbysebu i gwmnïau,
cymdeithasau ac unigolion ar glawr y
record. Cynigir lle hysbysebu ar
raddfa o 4 modfedd sgwâr am £5.00.

Os oes gennych ddi-ddordeb yn y
cynllun hwn, yna a fyddwch gystal â
chysylltu â PESDA ROC drwy'r
cyfeiriad isod, gan gynnwys
manylion am maint yr hysbyseb
neu'r swm yr ydych am ei nodd, ac
hefyd unrhyw waith celf neu logo yr
ydych am i ni ei ddefnyddio.

Dafydd Rhys
Gruff Elis-Williams
Gwynfor Jones
47, Ffordd Carneddi
Bethesda

BWYTAWR PECHODAU

Annwyl Olygydd,

Rai blynnyddoedd yn ôl rhoddais
sgwrs ar "Rhwng Gŵyl a Gwaith" ar
y testun 'Bwytawr Pechodau'. Yn
dilyn y sgwrs derbyniais lythyr
diddorol gan wraig o Lanberis yn
dweud fel roedd ei mam yn cofio
clywed ei mam yn dweud am
fwytawr pechodau Llanberis.

Fe hoffwn yn fawr gael cysylltu â'r
wraig yma neu unrhyw un a all
ddweud unrhywbeth am fwytawr
pechodau Llanberis. Ymddengys
fod yr hen arfer o fwytawr pechod yn
mynd ymlaen yn Llanberis ymhell ar
ôl iddo farw allan ym mhobman arall.

Yn ddiifffuant,
J. Aelwyn Roberts
Ficerdy Llandegai
Bangor

CWRS DRAMA IEUENCTID CYMRU

Annwyl Olygydd,

Trwy gyfrwng eich misolyn
carwn dynnu sylw at
ddeuddegfed Cwrs Drama
Ieuencid Cymru a gynhelir yn y

Coleg Normal, Bangor rhwng
Gorffennaf 18-30.

Prif amcan y cwrs yw rhoi cyfle
i bobl ifainc ymarfer a chael
hyfforddiant yn holl
weithgareddau drama trwy
gyfrwng y Gymraeg. Gydag
arbenigwyr yn hyfforddi bydd
cyfle i bob aelod o'r cwrs ymdrin
â rhai o'r elfennau canlynol —
meim, coluro, llefaru, goleuo neu
ysgrifennu. Bydd elfen helaeth o
waith creadigol trwy'r wythnos a
chyfle i ddefnyddio dychymyg a
meithrin dawn. Mae datblygiad
cyffrous i'r cwrs eleni gyda
gwahoddiad i'r aelodau
berfformio yn Theatr Fach y
Maes yn Eisteddfod
Genedlaethol Ynys Môn
brynhawn Sadwrn, Gorffennaf
30.

Anelir y cwrs at ddisgyblion
ygol, athrawon, aelodau o
fudiadau ieuencid neu unrhyw
un rhwng 16-25 oed sy'n
ymddiddori yn y ddrama yng
Nghymru a gellir cael manylion
pellach a ffurflenni cais oddi wrth
yr isod.

Yr eiddoch yn gywir,

Emyr Jones,

Swyddfa Addysg Ranbarthol

Dolgellau.

Ffôn: Dolgellau 423 191.

RHEOLWCH EICH CŴN

Annwyl Olygydd,

Fel un o drigolion stâd Glanffynnon
y mae gennyf un pryder mawr — sef cŵn
sydd byth a beunydd ar hyd y stâd.
Mae'r sefyllfa yn warthw. Ni ellis dod
â char i mewn i'r stâd heb orfod arafu.

Mae'r sefyllfa yn y gerddi yn
arswydus. Nid ydynt bellach yn ddim
ond toiledau cŵn. Mae torri'r gwaith
wedi mynd yn waith atgas oherwydd yr
holl ddreudod sy'n codi. Roeddwn yn
cyfrif y diwrnod o'r blaen, ac yr oedd
chwe chi wedi bod yn defnyddio fy
ngardd. I rywun sy'n casáu cŵn
gymaint â fi, mae hyn yn mynd yn rhy
bell.

A beth am y plant? Nid yn unig y
mae'n afiach eu gyrru allan i chwarae
yng nghanol y fath fudreddi, ond y
maent hefyd yn cario'r budreddi i mewn
i'r tŷ. Ac nid yw'r cyngor bro yn malio
dim yn ôl pob golwg. Os gall dinasoedd
mawr fel Llundain wahardd cŵn oddi
ar y strydoedd pam na all pentref bach
fel Llanrug. Mae'n hen bryd i rywun
weithredu. Mae pethau wedi mynd yn
rhy bell yn barod, ac nid yw'n gwneud
dim ond achosi drwg deimlad rhwng y
cymdogion. Gwn am rai sydd wedi
gadael y stâd oherwydd y cŵn.

Rwy'n erfyn ar bawb i gadw eu cŵn
dan reolaeth.

Yr eiddoch yn gywir,

H. Jones,

Dolwyn,

Glanffynnon

Llanrug

CYMERIADAU

Annwyl Olygydd,

Wrth ddarllen colofn Mrs Mary
Lloyd Williams, Agor Ffiniau'r
Gorffennol, yn rhifyn mis Mawrth o'r
Eco am Harry Parry neu Hari Barbar
fel y'i gelwid ef, daeth i'm cof rai o'r
hen gymeriadau doniol a difyr a
fyddai'n mynychu 1 Disgwyllfa Teras.
Efallai y daw'r rhigwm canlynol ag
atgofion melyn i rai o'r ardalwyr am
yr hen ddyddiau difyr hynny.

Gan ymddiheuro am ddefnyddio
rhai o'r hen enwau llafar a fyddai am
rai o'r cymeriadau:

(Parhad ar dudalen 3)

LLYTHYRAU (Parhau)

Rhai o'r cymeriadau doniol a difyr a fyddai'n mynychu tŷ Harri'r Barbar:

Un bychan ran corff oedd Owen Parc Ucha,
Ond tymer er hynny fel matsian a dania
John Roberts, "Sion Cross", yn llawn o ddireidi
A allai yrru'r cwch i'r dŵr yn bur handi
"Wil Dobie" yn smelio dal y ddesgyl yn wastad
Ond gwyddai pawb nad hyn oedd ei fwriad

Efan ac Ellis — 'dwaenai pawb fel "Yr Hogia"

Er yn dawel, yn ddau hynod o smala
Will Price y Saer; ac hefyd Will Peintar,

A Moses Jones gŵr mawr hefo genwar.

Ac yno hefyd ar eu tro doi John a Dafydd Stabla.

A Robert Dewi ar ei rawd a ddeuai o'r drws nesa.

Fe ddeuent oll am "gut" neu "shave" gan fedrus ddwylo Harri

Ond os âi'r pethau yn rhy bell i gadw trefn doi Siwsi.

Emrys Owen
9 Hafan Elan

HE - LO!



Dyma Bethan (sydd eisiau ei llaw yn ôl!) Ruth a Llinos o Ysgol Bethel yn rhoi eu sylw i'w llo bach newydd. Mae mwy o ddiddordeb gan ei fam yn y camera. Ond mae'n siwr ei bod hi'n cofio iddi gael tynnu ei llun i'r Echo o'r blaen, sef ym mis Hydref 1980 pan oedd ond pythefnos oed. Dyma'r amser pryd y cafodd ei "mabwysiadu" gan blant yr ysgol. Yn awr, a hithau â'i llo ei hun, fe'u gwerthir er lles cronfa Ysgol Bethel. Dymuna'r plant ddiolch i Mr. D. Kettle, fferm Ty'n Rhos, Seion am y syniad gwreiddiol ac am ei garedigrwydd ac wrth gwrs am ei ofal dros eu ffrindiau.

Parhad o'r dudalen flaen

Bu Nia, sydd wedi dysgu siarad Cymraeg, yn astudio Celfyddyd a Chynllunio yng Ngholeg Politechnig Manceinion am bedair blynedd. Bu'n gweithio ar gywaith Theatr Clwyd i baratoi adnoddau ar gyfer

plant dan anfantais. Yna bu'n Cynllunio Defnyddiau wedi'u gwau yn Suffolk. Yn ystod haf yr haf diwethaf gwerthodd, drwy Ganolfan Crefft Rhuthun, nifer o ddyfrlliwiau o'i heiddo.

cyfrifol ac yn barod ei gymwynas bob amser. Er i'r teulu wedyn symud i Fangor cadwair John Armar gysylltiad agos â'r rhai fu yn gyd-ddisgyblion gydag ef, ac yr oedd yn aelod o Gwmni Drama Llanberis. Yr oedd yn esiampl o'r math gorau o ddisgybl, yn gwrtais, yn weithgar, yn siriol ac yn gyfrifol. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w rieni, Inspector a Mrs Roberts ac i'w ddwy chwaer a gofiwn hefyd fel cyn-ddisgyblion annwyl iawn sef Julie a Jane.

Diane Griffith — Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth Diane trwy ddamwain ar y ffordd. Fe fu Diane yn ddisgbl annwyl a chymeradwy iawn ar hyd ei gyrfa yn yr ysgol 1975-80.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'w rhieni, Mr a Mrs D. Webb ac i'w brawd Tony (cyn-ddisgybl) a'i chwaer Marie sydd ar hyn o bryd yn ddisgybl yn nosbarth 3.

PÊL-DROED:

Ysgol David Hughes, Porthaethwy (oddicartref): Bechgyn hŷn, cyfartal 1-1. Dan 15, ennill 4-2, 2il Flwyddyn, colli 5-2, Blwyddyn 1af, ennill 7-3.

Ysgol Gyfun Llangefni (gartref): Bechgyn hŷn, cyfartal 1-1, Dan 15eg, colli 2-0, Dan 13eg, ennill 2-0, Dan 12eg, Tîm A, 3-3, Tîm B, colli 3-2.

Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda (gartref): Dan 15eg, ennill 8-1, Dan

13eg, Tîm A, ennill 5-1, Tîm B, colli 2-0.

Cystadleuaeth 5 bob ochr Ysgolion Arfon yng Nghanolfan Chwaraeon Caernarfon i Fechgyn dan 14 oed.

Fe enillodd tîm A yr ysgol bedair gêm yn y gystadleuaeth cyn colli yn y rownd gyn-derfynol i Ysgol Glan-y-môr, Pwllheli. Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon a enillodd y gystadleuaeth.

Gêm Gyfeillgar?

Y staff a rhai bechgyn o'r tîm dan 15 yn erbyn y Bechgyn Hŷn.

Y staff a enillodd 8-1, ond, a bod yn deg, roedd y bechgyn wedi colli dau chwaraewr blaenllaw oherwydd y fflw ac roedd Malcolm Allen wedi brifo. Y sgorwyr i'r staff oedd Mr Reg Roberts, 3, Mr Howyn Jones, 2, Mr Aled Hughes, 2, **chwaraewr gwadd**, a Mr Ian Pritchard, **chwaraewr gwadd**. Alan Williams sgoriodd yr unig gôl i'r bechgyn.

Gormod o Hen Bennau yn Nhîm y Staff!

Chwarae yn Ffrainc:

Yn ystod gwyliau'r Pasg fe fydd Kevin Jones o Ddinorwig yn mynd ar daith i Ffrainc gyda thîm dan 15eg oed Gogledd Cymru.

Pêl-rwyd: yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda (gartref): Dan 16, colli 11-10, Dan 13 colli 9-8.

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

EISTEDDFODAU'R URDD:

Daeth tymor Eisteddfod yr Urdd unwaith eto, a chafodd yr ysgol lwyddiant ysgubol. Eleni bydd yr Eisteddfod yn Aberafan ym mis Mehefin.

Yn Eisteddfod Cylch Arfon, o dan 15, bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn llwyddiannus. Daeth Graham Williams yn gyntaf ar yr unawd bechgyn, ac hefyd yn gyntaf ar yr unawd pres. Yn yr unawd genethod, daeth Alison Edwards yn gyntaf a Jane Parry yn ail. Cafodd Alison ail hefyd ar yr unawd cerdd dant. Yn y ddeuawd dan 15 daeth Sian Elen Pritchard a Meinir Williams yn gyntaf a Sharon Roberts a Helen Mai Pritchard yn ail. Cafodd Manon Evans gyntaf ar ganu'r delyn, a daeth Manon ac Elen Roberts yn gydradd trydydd ar ganu'r piano. Yn y gystadleuaeth adrodd o dan 15 daeth Meinir Williams yn drydydd.

Cafodd côr yr ysgol gyntaf a daeth y ddau barti deulais yn ail a thrydydd, a chafodd y ddau barti cerdd dant gyntaf a thrydydd. Daeth y parti cyd-adrodd yn ail hefyd. Enillodd yr ysgol hefyd y wobwr am y nifer mwyaf o farciau yn yr Eisteddfod.

Tair o ferched y chweched oedd yn arwain yr Eisteddfod hon, Bethan Hughes, Marina Roberts a Rhian Owen, a deillir iddynt wneud eu gwaith yn ardderchog.

Yn Eisteddfod Sir Eryri, daeth Alison Edwards yn drydydd ar yr unawd cerdd dant, a Graham Williams yn gyntaf ar yr unawd pres. Bydd Graham felly yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn Aberafan.

Yn Eisteddfod Sir Eryri dros 15 daeth y parti cerdd dant yn gyntaf, Rhian Owen yn gyntaf ar yr unawd merched, a Siân Gibson a Rhian Owen yn gyntaf yr y ddeuawd. Bydd y tair eitem yma yn mynd i Aberafan

RHOEDDION

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£5.00 — Mr Hugh R. Jones, Bodfair, Llanberis.

£4.00: Morris a Mair Parry, Ontario, Canada.

£3.00: Mr a Mrs R. Jones, 8 Rhosrug, Llanrug; Mr a Mrs Gareth Roberts, Brithdir, Llanbedrog (gynt o 9 Bryn Golau, Waunfawr).

£1.50: Mrs M. Jones, 7 Hafod Oleu, Deiniolen; P.W. Williams, Corby.

£1.00: Mrs M. Adlam, 14 Bryntirion, Penisarwaun; Mrs M. Jones, 4 Pentre Helen, Deiniolen;

Mrs Maggie Griffith, Tŷ Ddewi; Mrs Enid Roberts, Y Fflatiau, Maes Padarn, Llanberis.

50c: W. Ffowc Roberts, Backford, Caer; R. Jones, Wavertree, Lerpwl; Mrs M.E. Edwards, Stone, Stafford; Mr Emlyn R. Jones, Borth y Gest.

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMOL

Ffôn:

**Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329**

**Gyda'r Nos
Llanberis 872236**



**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

BETHEL



Aelodau o Ferched y Wawr, Bethel yn dathlu Gŵyl Ddewi. Mae 55 o aelodau yn y gangen ac maent yn cael tymor llwyddiannus.

Y swyddogion yw: Llywydd, Mrs Rita Williams, Ysgrifennydd: Mrs Gwyneth Williams, Trysorydd: Mrs Mabel Jones.

MERCHED Y WAWR – Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni gyda noson gartrefol yn yr ysgol yng nghwmni yr amryddawn Miss Jim Owen o Fangor. Trefnwyd swper gan y pwyllgor a diolchwyd iddynt gan Mrs Mair Price. Da oedd gweld Miss Owen, 16 Bro Rhos yn bresennol, a dymunwyd yn dda i Mrs Bet Owen a Mrs M. Jones, Bryn Baron mewn gwaeledd.

Enillwyd y raffl gan Miss Jini Owen. Cyfarfod nesaf ar Ebrill 13 gydag arddangosfa Coginio gan Mrs Antionette Hughes o Goleg Glynllifon.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod misol o'r Sefydliad yn yr ysgol nos lau, 17 Chwefror gyda Mrs M.J. Edwards, Llanfaglan yn rhoi arddangosfa o waith cegin. Diolchwyd i Mrs Edwards gan Mrs M.G. Williams, Gwylfa. Miss Nancy Humphreys, Ty'n Rhos, Mrs Margaret Hughes, Bro Rhos a Mrs Grace Williams, Bro Rhos oedd yn gyfrifol am y te. Enillwyd y raffl gan Mrs Joyce Jones, Llanrug.

Nos lau, 17 Mawrth cynhaliwyd cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Gwynedd Llanberis gydag Arfon Wyn a'i Gyfeillion o Bodffordd yn diddori. Cafwyd noson ddifyr iawn a diolchwyd i Arfon Wyn a'i gyfeillion gan Mrs Joyce Jones. Dymunwyd gwellhad buan i Miss Maggie Owen, Bro Rhos a Miss Katie Morris, Penrhos. Croesawyd Mrs Margaret Hughes, Bro Rhos yn ôl ar ôl gwaeledd.

DIOLCH – Carwn ddiolch yn fawr iawn i bawb ym Methel am fod mor garedig tuag ataf tra yn Ysbyty Alder Hey ac ar ôl dod adref.

Menna
4, Tan y Cae Bethel

LLONGYFARCHIADAU – I Howela W. Jones, Rhos Chwillog ar gael ei phen-blwydd yn 18 oed ar Chwefror 2il ac i Bryn Jones, 24 Bro Rhos oedd yn dathlu ei ben-blwydd ar 23 Mawrth.

CYDYMDEIMLO – Ddydd Mercher, 2 Mawrth cynhaliwyd angladd Mrs Iorwen May Morris, 2 Penrhos. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr af â'r teulu yn eu profedigaeth.

CYLCH MAM A'I PHLENTYN – Mae'r cylch wedi cychwyn yn llwyddiannus iawn gyda 27 o blant wedi ymaelodi. Maent yn cyfarfod dwy waith yr wythnos, ac yn mwynhau chwarae gyda'i gilydd, tra mae'r mamau yn cael sgwrs a phaned.



Rhai o blant y Cylch Mam a'i Phlentyn yn mwynhau'r gwahanol degannau.

Dihareb o China:

Cynllun blwyddyn : plannu reis.
Cynllun degawd : plannu coed.
Cynllun oes : addysg.

PIANYDDION MEDRUS



Yng Ngŵyl Gerdd Lerpwl a gynhaliwyd ar ddydd Gŵyl Dewi bu rhai o enethod Bethel yn arddangos eu medr i ganu'r piano. Daeth Esyllt Jones yn ail ar yr unawd piano ac yn gyntaf yn y gystadleuaeth hunan ddewisiad dan 8 oed. Yn yr unawd piano dan 9 oed daeth Lynn Roberts yn gyntaf a Ruth Wyn Parry yn ail. Er nad yw Angharad Price ond 11 oed, hi oedd yn fuddugol yn yr unawd dan 14 oed – ac enillodd gwpan hardd.

Dyfarnwyd tystysgrifau anrhydedd a theilyngdod i Gwen Jones, Llinos Williams, Angharad Elis a Cerril Roberts.

NOFWYR LLWYDDIANNUS



Plant Adran Iau Ysgol Gynradd Bethel a fu'n llwyddiannus mewn profion nofio a gynhaliwyd yng Nghanolfan Arfon yn ystod mis Mawrth.

DIAR, DIAR – BETH WELODD Y DOCTOR?



DRAENOG



Pobl fudur yn Llanrug, meddau nhw. Binau sbwriel wedi eu gosod ar ochrau'r ffyrdd hyd y pentra. Sustem newydd mae'n rhaid, oherwydd mae mor anobeithiol cael mwy nag un bag plastig du gan ddynion y lori sbwriel. "Binau i bawb o bobl y Rug!"

Pan ofynnodd y doctor i Alun Wyn Jones o Fethel godi ei grys 'doedd o ddim yn disgwyl gweld 'Superman' yn neidio amdano! Ond dyna ddigwyddodd pan gafodd Alun, sy'n ddisgybl yn Safon 3, ysgol Bethel gyfle i actio 'claf' yn y gyfres 'Diar, Diar Doctor' ar S4C yn ddiweddar.

Arholiadau'r Guildhall


Rhagarweiniol: Sian Emlyn Jones a Sioned Meleri Owen (Anrhydedd) a Llinos Williams (Teilyngdod).

Rhagbrofol: Arwel Jones, Jennifer Jones, Lynn Roberts, Ruth Wyn Parry (Teilyngdod), Annwen Jones, Llion Jones (Llwyddiant).

Gradd I: Canu – Gwen Jones (Teilyngdod). **Gradd II:** Piano: Carys Owen (Llwyddiant). **Gradd III:** Catrin Evans (Llwyddiant). **Gradd IV:** Mari Owen (Llwyddiant), Mair Hughes (Teilyngdod). **Gradd V:** Angharad Price (Teilyngdod).

Ein llongyfarchiadau i bob un ohonynt ac i Mrs Heulwen Williams sy'n eu hyfforddi.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgryn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

Yn dilyn y sylwadau ar Stryd Goodman, Llanberis yn y rhifyn diwethaf, daeth llythyr i law oddi wrth Olwen Davies, gynt o Lanberis, nawr o Fangor, a chefais alwad ffôn gan R. Goodman Jones, Mynytho, sydd yn ceisio olrhain hanes y "Goodman" a soniais amdano, ac sydd wedi addo anfon adroddiad llawn yn dilyn ei ymchwil. Dyma lythyr Olwen Davies:

"Onid oes cysylltiad rhwng Stad Rhuthun, perchennog tai Stryd Goodman, yr Esgob Goodman ac Ysgol Freimiol Rhuthun? Yr Esgob a gychwynnodd yr Elusen a sefydlu'r ysgol sydd heddiw yn manteisio wrth fod ar restr y Comisiwn Elusen. Ac felly, roedd rhenti'r tai salw hyn yn mynd i'r Stad a elwid gennym ni yn 'Tlodion Rhuthun'. Roeddwn i, fel llawer plentyn yn y tridegau, yn byw mewn tlodi heb wybod bod arian a debygem ni oedd yn mynd at ryw "blant slyms" neu "blant wyrwys" rywle o'r enw Rhuthun, yn mynd mewn gwirionedd i gymal ysgol lle roedd rhieni cyfoethog yn medru gyrru eu plant i breswyllo a chael pob mantais ddiwylliannol a chorfforol."

Mae'n mynd ymlaen yn ei lythyr i gofio cyfnod triplau'r Ysgol Sul o Lanberis i'r Rhyl:

"Parwb yn paratoi y noson cynt, golchi gwallt, smwddio dillad glân, gwynnu'r 'sanshws', bod yn blant da er mwyn cael ceiniogau neu swllt at yr arian a gaem gan yr Ysgol Sul. Yna gwneud pecyn o fwyd a diod i gael picnic ar y tywod, ar ôl y miri o gael trochi'n traed. Wedi blino chwarae ar y tywod, mynd ar y promenâd i chwilio am dreisicl, a gyrru'n wyllt ymlaen ac yn ôl, yn groes ac ymgroes nes blino ... a'r siwrne'n ôl ar y trêd wedi ymladd, ac yn swian nes cyrraedd adre gan luso'n traed."

Mae yn ei meddiant ddarlun yr hoffai wybod mwy amdano. Yn anffodus ni allwn atgynhyrchu'r darlun yn yr Eco, ond dyma ddisgrifiad o rai nodweddion ohono:

"Mae gennyf ddarlun bychan o "Cwm y Glo Choir and Orchestra 1909" wedi ei dynnu gan Symons Photos, Llanberis. Ynddo, mae chwech ar hugain o ddynion a thipyn mwy o ferched, a nifer go dda o offerynwyr, gan gynnwys rhai'n

chwarae ffidil, tair ohonynt yn ferched, un efo'r cello, dau gydag offeryn chwyth, ac un efo'r cello dwblwl bas, sef ewythr i mi, brawd fy mam, Mr Edward Jones, a oedd hefyd yn organydd yn Eglwys St. Padarn, ac yn gantor ac arweinydd. Mae ei ferch, Mrs May Jones yn 81 mlwydd oed, ac yn byw ym Mangor. Roedd ei chwaer, Jennie, yn fam i Ted Morris sydd yn dangos y ddawn gerddorol yn amlwg.

Roedd llawer o brysurdeb cerddorol yn Llanberis yn y tridegau. Cefais i wersi ffidil gan Mrs Jennet Evans oedd yn byw yn Gellihibant. Rhoddodd ei hamser a'i dawn heb ofyn dimai goch gennym ni blant. Wedyn cefais rhyw ychydig o wersi piano gan Alaw Mai, yntau wedyn yn organydd yn yr Eglwys.

Dim radio na theledu, dim ond canu ac adrodd, parti cân actol, wythawd a chyd-adrodd — a chwarae tennis ar gwtiau'r Vic neu'r Ring fel y galwem ni'r dafarn.

Efallai y gwyr rhywun arall o ddarllenwyr yr Eco am fywyd cerddorol a gweithgareddau hamdden cylch Llanberis yn y cyfnodf cyn y Rhyfel?"

Llawer o ddiolch am lythyr diddorol, a gobeithio y daw mwy o wybodaeth am weithgareddau cerddorol y cylch yn dilyn yr anogaeth yn y llythyr uchod.

Ac i ddiweddu y tro hwn: yr olwyn ddŵr a ddangoswyd yn y rhifyn diwethaf oedd un Cwm Uchaf, Llanberis, ar y ffordd o Lanberis dros Fwlch y Groes i'r Waunfawr. Addawsom fwy o wybodaeth am yr olwyn, a gobeithiwn ei gynnwys yn y rhifyn nesaf.

AR WERTH:

RHEWGELL — Maint 8 troedfedd ciwbig — £10. Hughes Caernarfon 5823.

BRYNREFAIL

D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223).

SEFYDLIAD Y MERCHED — Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas cafwyd noson ddifyr dan arweiniad un o'r aelodau, sef Moira Ellis yn sôn ac yn arddangos ar ei diddordeb mewn gwehyddu a nyddu. Darparwyd y te gan Sheila Williams a Rhian Jones, rhoddwyd anrheg y mis gan Jinnie Williams ac fe'i henillwyd gan Pat Jones.

CLWB Y MAMAU — Yng nghyfarfod mis Mawrth daeth yr aelodau ynghyd yn yr hen "siop ganol" — neu "Revival" fel y gelwir hi yn awr. Yno, cafwyd noson ddiddorol iawn yn gwylio Jillian yn ymdrin â'i gwaith yn goreuro fframiau a dodrefn. Wedi dychwelyd i Tŷ Glas cafwyd te a ddarparwyd gan Pat Jones a Carol Houston. Pat Jones a fu'n lwcus o ennill anrheg y mis, a roddwyd gan Mrs Hasson.

CLWB IEUENCTID — Mae clwb tra llewyrchus yn cyfarfod yn yr hen ysgol fach bob nos lau, dan arweiniad Mr Harri Jones. Mae'r aelodau yn mwynhau rhaglen amrywiol o ddiddordebau, ac ychydig yn ôl bu rhai o'r rhai hynaf yn sglefrïo yng Nghanolfan Glannau Dyfrdwy.

CLWB PEDWARUGAIN — enillwyr mis Chwefror — 4: 1. Arthur Jones, 2. Megan Sir Fôn, 3. Alwyn Cae'r Bythod. 11: 1. Ken Jones, 2. Sylvia Williams, 3. Priscilla Collins. 18: 1. Liz Thomas, 2. Pat Jones, 3. Peggy Davies. 25: 1. Audrey Roberts, 2. Dafydd Price, 3. Islwyn Williams.

EISTEDDFOD GODRE'R GRAIG — Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod yng Nghwm-y-glo ar Mawrth 18. Dylem fel pentref ac ardal gydnabod ein dyled i Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed a fu'n addysgu'r partion a'r unigolion ar gyfer yr eisteddfod.

CYFARFOD PREGETHU — Ddydd Gwener y Groglith bydd y cyfarfod pregethu blynyddol yng Nghapel M.C. Brynrefail. Eleni, fe bregethir gan y Parch W. Gareth Edwards o'r Wyddgrug am 10.00, 2.00 a 5.30 p.m. Estynnir croeso cynnes i bawb a disgwylir gweld amryw cyfeillion o'r ardal.

CYDYMDEIMLWN — yn ddwys â Mrs M. Williams, Dinorwic House yn ei phrofedigaeth o golli ei mam ym Methel. Cydymdeimlwn hefyd gyda Mr Islwyn Williams a Mr Geraint Morris.

Dymuna Mrs Williams a'r teulu ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

TAN-Y-COED

Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tanycoed (Llanberis 870030)

FFAIR WANWYN — Nos lau, Mawrth 11 yn Ysgol Gynradd Llanrug cynhaliwyd Ffair Wanwyn lwyddiannus iawn, yr elw tuag at Gronfa Adeiladau Tan-y-coed MC.

Daeth cynulliad da ynghyd a mwynhawyd noson gyfeillgar uwchben paned o de.

Diolch i bawb gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y noson. Diolch am bob gwasanaeth; rhoddion ariannol; rhoddion mewn nwyddau i'r gwahanol stondinau; ac am bob cydweithio. Derbyniad ardal Llanrug a'r cylch ddiolch eglwys Tan-y-coed am bob cefnogaeth i'r fenter lwyddiannus hon.

Y gŵr gwadd a agorodd y Ffair oedd Mr Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug un o blant Tan-y-coed. Diolchwyd iddo gan y Parch W.O. Roberts. Yr un pryd mynegodd Mr Roberts ddiolchgarwch Eglwys Tan-y-coed i bawb arall a gefnogodd y Ffair mewn unrhyw fodd.

ADRE O'R YSBYTY — Croeso adre o'r ysbty i Mrs Pitts, Caerweddus a Mr Richard Jones, Min y Parc. Gwellhad buan i'r ddau.

Dymunwn adferiad buan hefyd i

Mrs Parry mam Mr John Parry, Ael y Bryn. Y mae Mrs Parry ar hyn o bryd yn aros yn Ael y Bryn gyda'i mab a'i merch yng nghyfraith, Owena. Da deall ei bod yn gwella'n raddol. Boed iddi hithau adferiad llwyr a buan.

Yn ystod y tymor hwn cafodd Anwen Parry, Ffion Williams ac Amlyn Evans egwyl ddifyr yng Nglanllyn Canolfan yr Urdd.

Llongyfarchiadau i Ffion Williams, ar ddod yn gyntaf ar ganu Alaw Werin dan 12 oed; yn ail ar yr unawd ac yn ail ar unawd cerdd dant rhwng 10 a 12 oed, ac i Manon Evans gydag unawd telyn dan 15 oed yn Eisteddfod Cylch yr Urdd.

Llongyfarchiadau hefyd i Barti'r Ddawns Greadigol o Ysgol Gynradd Llanrug ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Arfon ac yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Byddant hwy yn mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Aberafan. Pob hwyl iddynt yno.

Yn y parti mae Rebecca Hughes, Annwen Parry, Lona Roberts, Ffion Williams a Wyn Parry o Dan-y-coed.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

W.J.GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

Y LLYTHYREN 'D'

BYDDAI bri ar gystadleuaeth y "Spelling B" fel y galwen ni hi pan oeddym yn blant. Dweud geiriau oedd yn dechrau gyda'r un llythyren oedd y gamp. Hwnnw fedrai ddal ati i enwi oedd yn dechrau gyda'r un llythyren hwnnw fyddai'n ennill y wobr.

Gan Mr T.W. Thomas, Berwyn, Llanrug y cefais yr anerchiad canlynol wedi ei lunio gyda phob gair yn dechrau gyda'r llythyren 'D'. Cyfansoddwyd y darn meddai Mr Thomas, ar gyfer cyfarfod Cystadleuol bychan yn Amlwch flynyddau'n ôl bellach. Y gystadleuaeth oedd rhoi araith byrfyfyr ar destun wedi ei dynnu allan o het. Yr unig wybodaeth sydd ganddo am yr awdur ydyw hyn - mai gwas bach ar fferm yn Amlwch oedd, ond nis gallai gofio pwy ydoedd.

'Rwy'n diolch yn fawr i Mr Thomas. A fedr rhywun roi ychwaneg o wybodaeth amdano?

"Dydd Diolchgarwch diweddfaf daeth Diana Daniels, dynes dal denau drwsiadus dros draeth Dulas dan dynnu Dulas. Daliodd Dic Dafydd dew dalentog di-Dduw. Dechreuodd Dic dyngu, dilorni, difrio Duw. Daeth dychryn dros Diana Daniels, dywedodd dan deimlad dwys, "Daw dydd dial Duw Dic Dafydd, dydd digofaint Dwyfol diffydd Duw drawster dyn, daw diafliaid diorffwys dirwasgant, dirdynant, dygant Dic Dafydd dan dyngu, dyn drwg, dyma damaid diafol.

"Daeth dychryn dros Dic Dafydd, dechreuodd dywallt dagrau difeiriol, 'Duw da dyro drugaredd,' dolefa, 'dyro drugaredd dirion Dad.' Dros draeth Dulas daeth dolefa Dic, 'Duw da dyro drugaredd.' - Duw da drugarhaodd, dosturiodd, dileodd droseddau duon Dic.

"Dilynodd Dic Ddydd Diolchgarwch diddan, dedwydd. Dic Dafydd diolch dragywydd."

Hen Lyfr Emynau

Cefais fenthg hen Lyfr Emynau gan Mrs Clarita Theodora Evans (Mrs Jones Evans Bro Rhyddallt). Ar dudalen gyntaf y llyfr yr oedd hanesyn am Huw, crwydryn, oedd yn cymryd ei gartref yn y wyrcws Caernarfon. Aeth Huw i'r Seiat yn Siloh Caernarfon. Gofynnodd y Gweinidog a oedd ganddo adnod neu bennill.

Adroddodd Huw ddau bennill arferai ei fam ddysgu iddo, tra yn eistedd ar ei glin.

Cofio'r nos bradychwyd lesu
O mor rhyfedd, cofio'r ardd,
Cofio Judas, cofio'r fyddin,
Ddaeth i ddal y Person hardd.
Cofio'r chwys yn y llys y profi
Cofio'r Groes ar Galfari,
Cofio'r syched, cofio'r lludded
Pan yn marw drosom ni.

Dwy fflam ar ben Calfaria
Gyfarfu yno 'nghyd.
Fflam gariad at bechadur
Fflam goch o Ddwyfol lid.
A'r mwg yn dringo i fyny
Nes cuddio sêr y nen.
A'r lesu rhwng y ddwyfflam
Yn marw ar y pren.

Anerchiad Priodas 1925

Mewn amser bras ac amser blin
Mewn heulog ac afrywiog hin,
Erioed ni welodd undyn rwd
Ar arfau diwyd Gof y Ffrwd.

Pan godai'r haul dros gopa'r bryn
Atseiniai ordd dros Goed y Glyn,
Ac ocheneidiai'r fegin fawr
Trwy gydol dydd o doriad gwawr.

Ond adeg noswyl lawer pryd
Ar waith difyrach rhoi ei fryd -
'Roedd lleuad lawn, a llwybyr troed,
A merch yn disgwyl dan y coed.

Fe gafodd hwyl o dro i dro
Ar ferched ifanc hardda'r fro,
A swyno llawer un a wnaeth
A'i lygad byw, a'i dafod ffraeth.

Ond gwelodd un, a serch ei fron
A losgodd nes meddiannu hon,
Ac eiddo cyflawn iddi yw
Ei dafod ffraeth a'i lygad byw.

I hon y goddef bob rhyw gur,
I hon y cura'r eingion dur.
A chwythu'r tân a chanu'n llon
A beunydd byw a bod i hon.

A boed i'r ddau ar hyd eu hoes
Gael gwynt o'u tu, os bydd yn groes
Mae cylch o aur i'w cadw'n 'nghyd
Y ddau ddedwyddaf yn y byd.

Rhyw ddydd bydd eto lawenhau
Pan ddaw i'r aelwyd fwy na dau
Etifedd bach a gofal mawr
A phryder melys lawer awr.

I fod yn ŵr a thad a thaid,
Tynhau'r gewynnau cryf fydd raid,
A heriaf undyn weled rhwd
Ar arfau diwyd Gof y Ffrwd.

**TOM PARRY
CARMEL**

RHAGLEN NEWYDD I BLANT

Bydd cyfres deledu newydd i blant, **SBRI CELWYDD GOLAU**, yn dechrau ar S4C, ar Ebrill 8 am 5.00. Y ddau gyflwynydd yw Mari Gwilym (sef Carys Brenda) a Dennis Birch (sef Colin Arthur). Gwelir consurwyr, jyglwyr, acrobatwyr a chlowns yn y rhaglenni.

Mae Mari'n gyfarwydd i blant Cymru ond wyneb cymharol newydd yw Dennis Birch, er ei

fod yn ffefryn i gynulleidfaoedd Theatr Felinfach fel lanto Ffwl Pelt yn eu pantomeimiau. Recordiwyd y gyfres yn Theatr Gwynedd o flaen cynulleidfa o blant.

Bydd plant Ysgol Penisarwaun yn ymddangos yn y rhaglen a ddarlledir ar Ebrill 22 eto Buffalo Billy Wild, Vic Templar, clown a beiciwr gwirion, John a Julie Dixon, consurwyr.

Siopau Stryd Goodman Llanberis



Dyma lun o siop Gwenfro, Llanberis gyda'r perchennog Mr John Davies, wrth y drws. Llun drwy garedigrwydd Mrs M.B. Hughes.

SIOPAU - Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco gofynnodd Mrs Maisie Lewis, Llys Tudur os oedd rhywun yn cofio siop yn Stryd Olgra. Hefyd crybwyl-lodd y byddai'n ddiddorol cael gwybodaeth am y llu siopau bach oedd yn Llanberis flynyddoedd yn ôl.

Un o'r trigolion a chof eithriadol ganddi yw Mrs Annie Martin Owen, Gwynfryn, Stryd Newton, ac mae hi'n cofio am yr oll o'r siopau bach. Dyma'r rhestr a roddodd Mrs Owen o siopau Stryd Goodman:

Cychwyn o'r Stryd Fawr ar yr ochr chwith:

1. **Glandŵr** - ochr y Stryd Fawr, siop ddil-lad, ac yna ar ochr Stryd Goodman - Gros-eri.
2. **Gwenfro** - siop groser
3. **'Cloth Hall'** - siop yn gwerthu gwllân cartref a gwllân. Mrs Evans oedd y per-chennog a dau fab ganddi.
4. **Birmingham House** - siop llestri yn cael ei chadw gan Eurwen Jennie ac Ernie. Pan gaewyd y siop aethant i Affrica.
5. **Siop William Gruffydd** - y Crydd.
6. **Siop Cadfan** - siop Dafydd Hughes y glo. Gwerthu da-da a "scrams". "Scrams" ydoedd sosej, brôn, ham etc. yn dod i fyny o'r dre ddwy waith yr wythnos.
7. **Siop Gig** - Siop Huw Bwtsiar.
8. **Siop Miss Davies** - siop bob dim a 'scrams' ar ddydd Mawrth a dydd Gwener.
9. **Siop Ellis** - y Barbwr.

Cyfansoddwyd y penillion gan Syr Thomas Parry pan oedd yn fyfyrwr yng Ngholeg y Brifysgol Bangor 1925.

10. **Siop chips** - (Gwynfa). Pawb yn cyrchu yno i brynu pennog a picl yn ystod y dydd.

11. **Siop Gruffydd Davies** - Tinman. Roedd o yn gwneud pwcidi a phiseri a thyniau bwyd i'r chwarelwyr.

12. **Siop Bach Mrs Pritchard** - tua 41 Stryd Goodman. Y siop ar ffordd bach wrth y ffenestr - yn gwerthu da-da - canhwylau-manion bethau.

13. **Rhif 53 Stryd Goodman** - y tŷ olaf - Siop Mrs Hughes Dairy - yn gwerthu wyau a llefrith.

14. **Cambrian Stores** - Gwerthu dodrefn yno yr oedd Job Owen.

Yr ochr arall i Stryd Goodman yn cychwyn o'r gwaelod:

15. **Rhif 1 Goodman** - Siop Maggie Jane - bara a chacenni, dim llawer ond ychydig bob dydd. Byddai Maggie Jane yn cario'r post hefyd. Mynd i Pengilfach ar gefn beic.

16. **Siop Porcman** - Mr Roberts yn cael porc, sosej, pwddin gwaed, lard gan ei frawd oedd yn cadw siop ym Mangor. Agored ddydd Gwener a dydd Sadwrn yn unig. Siop y gegin ydoedd.

17. **Ripon House** - siop baent a phapur papuro gan William Thomas - cerddor da iawn. Aeth i'r America gyda'i deulu.

18. **Siop Olgra Terrace** - Siop Edward Jones, Compton. Bu'n cadw siop yn Compton House, yna dod i Olgra Teras. Nid yw yno heddiw ond mae garej wedi ei chodi ar y man a'r lle.

Wel dyma ddeunaw o siopau bach llewyrchus mewn un stryd yn unig. Nid oes ond dwy siop yn Stryd Goodman heddiw - gresyn o beth.


Gobeithiaf gael chwilio am siopau y strydoedd eraill erbyn y rhifyn nesaf.

**GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG**

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

DEINIOLEN

Gohebydd: Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

Dymuna Mrs Maggie Griffiths o Tŷ Ddewi (gynt o Maes Eilian Dinorwig) ddiolch i'w theulu am anfon yr Eco yn gyson iddi.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd swper i oedolion yr ardal yn Ysgol Gwaen Gynfi ar Fawrth 2 ynghyd â Noson Lawen. Fe ddaeth nifer o'r ardalwyr ynghyd a chawsant eu difyrru gan aelodau'r Sefydliad a pharti o enethod ifainc sydd yn cael eu dysgu gan Mrs Thomas, Clwt-y-bont.

Cyfeiliwyd iddynt gan Miss Beti Williams, arweinydd y noson oedd y llywydd, Mrs Rita Jones, y Becws. Diolchwyd i'r Sefydliad gan Mrs Miriam Lewis, Llys Myfyr ar ran aelodau Clwb Elidir. Diolchwyd hefyd i bawb o'r Sefydliad a gyfrannodd at y swper. Hefyd i Mr Ieuan Williams am gludo'r oedolion bob blwyddyn fel hyn. Derbyniodd amryw o'r aelodau wobrau raffl.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mrs Eirian Jones a'r plant, 11 New Street, Deiniolen ddiolch o galon i'w perthnasau, cyfeillion a'r pentrefwyr, am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli priod a thad mor arswydus o sydyn. Diolch hefyd i'w gydweithwyr ym Manweb am y cardiau, rhoddion a'r blodau. Diolch hefyd i'r meddyg a bechgyn yr Ambiwylans ac i bawb am eu cydymdeimlad.

DYMUNA Mrs Maggie, 7 Hafod Olau, Glyn a Valmai ddiolch o galon i'w perthnasau, cyfeillion a phentrefwyr am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth fawr o golli mab a brawd.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd y cyfarfod o'r uchod nos Lun, Chwefror 21 yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis. Y gŵr gwadd oedd Mr Gwyn Parry, B.A., Bro Dawel. Y mae Mr Parry yn Bennaeth Adran Addysg Grefyddol yn Ysgol Aberconwy. Cafwyd noson ddiddorol a llawn amrywiaeth ganddo. Adroddodd ychydig o hanes cychwyn y Band yn y flwyddyn 1835. Fe'i gelwid yr adeg honno yn Fand Llandinorwig. Hefyd cafwyd hanes y Band yn yr Almaen, a chafwyd ambell i stori ddigri am y daith honno. Roedd wedi paratoi cwis hefyd. Yr enillwyr oedd Tim 'A' (30 pwynt), Tîm 'B' (24 pwynt). Diolchwyd i Mr Gwyn Parry gan y llywydd. Rhoddwyd y te gan Mrs Marian Wyn Williams a Mrs Beryl Hughes. Enillwyd y wobwr lwcus gan Mrs Ellen Williams, 2 Bwthyn. Cynhelir cyfarfod nesaf nos Lun, Ebrill 18 yn y Ganolfan. Bydd y noson yng ngofal Mrs Jane Eirlys Williams, Pentre Helen. Hefyd cynhelir bwrdd 'Moes a Phryn'.



Mr. Barry Lloyd Jones, gyda'r cloc o waith llechen a dderbyniodd gan Blaid Cymru.

CLWB ELIDIR - Cyfarfu'r uchod Mawrth 8fed yn y Clinic. Y llywydd oedd Mrs Marren. Y siaradwr yn y cyfarfod oedd Mr Bayliss o Benisarwaun a ddangosodd ffilm o Ddeiniolen a Dinorwig. Diolchwyd iddo gan y llywydd. Pasiwyd cydymdeimlad â Mrs Maggie Jones, 7 Hafod Oleu a'r teulu yn eu profedigaeth, hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs Annie Lloyd Jones, 5 Cynfi Terrace a oedd yn aelod ffyddlon o Glwb Elidir. Rhoddwyd y te gan Mrs Nancy Thomas, Mrs Ruthie Williams, Mrs Jennie Evans a Mrs Mary Hughes. Yr oedd amryw o'r aelodau yn absennol trwy waeledd a dymunwyd adferiad buan iddynt. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Elsie Davies gan Mrs Mary Thomas.

Cynhelir cyfarfod nesaf Clwb Elidir yn y Clinic, bawn dydd Mawrth, Ebrill 12.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mrs Kate Lewis, 7 Maes Gwylfa ddiolch i'r teulu, ffrindiau, a'r cymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

DIOLCHIADAU - Dymuna teulu Llys Myfyr, Deiniolen ddiolch am bob mynegiant o gydymdeimlad a charedigrwydd yn ystod eu profedigaeth. Cydnebir yn ddiolchgar pob rhodd ariannol a rennir rhwng Cronfa Cymhorthau Meddygol Deiniolen a Dr Barnardo.

NEWYDDION Y SEINDORF - Enillwyr Clwb 200 am fis Mawrth: 1. £25, rhif 126, Miss M.J. Jones, Fferm Foel, Dinorwig, 2. £15, rhif 111, Sara Woods, Fron Heulog, Dinorwig, 3. £5, Rhif 93, Miss J. Jones, 30 Hafod Oleu.

PLAID CYMRU - Cynhaliwyd noson gŵyl Ddewi'r gangen yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug nos Sadwrn Chwefror 26. Treuliwyd noson bleserus yng nghwmni Edward Morus Jones, a chafwyd deuawd fythgofiadwy gan Tommy Arfon a Kathleen!

Roedd Mr Dafydd Wigley, AS, yn bresennol, ac ef a gyflwynodd gloc o waith llechen i Mr Berry Lloyd Jones, a fu'n ysgrifennu yd y gangen rhwng 1978 a 1982. Talwyd y diolchiadau gan y cadeirydd Mr Gwyn Parry.

Cyhoeddwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn 'Minffordd' Dinorwig ar Fawrth 15. Trafodwyd yr etholiadau lleol sydd i'w cynnal ym mis Mai.

Enillwyr Clwb Cant mis Mawrth oedd - £10, Rhif 20, Mrs Ana Hughes, Rhiwen; £8.50, Rhif 16, Mrs Vera Parry, Bro Dawel.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mrs M. Jones, 4 Pentre Helen ddiolch i'w perthnasau, cyfeillion a chymdogion, y meddyg teulu (Dr Marren), meddygon a gweinyddesau Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor am bob caredigrwydd a rhoddion a dderbyniodd tra yn wael yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

MARW - Yn ei gartref yn Llandudno bu farw'r Parch R.H. Jones, BA, PhD a oedd yn enedigol o Llys Gwynedd, Tai Caradog. Bu'n gweithio yn Chwael Dinorwig cyn mynd i Goleg Dewi Sant, Llanbedr a chael ei ordeinio ym Mangor ym 1942. Bu'n gwasanaethu mewn sawl eglwys yng Ngwynedd cyn symud i Loegr ac ymddeolodd o fod yn Ficer yn Hyde, Sir Gaer rai blyneddau yn ôl oherwydd afiechyd. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn cerddoriaeth; bu'n organydd yn Eglwys Crist, Llandinorwig ac yn aelod o Orsedd y Beirdd dan yr enw 'Alaw Gwynedd'. Roedd yn un o'r wyth aelod o Eglwys Llandinorwig a godwyd i weinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru a llawer ohonynt fel

BREHNINES CARNIFAL DEINIOLEN



Y Frenhines Sharon Ann (Lambert) gydag aelodau o'i gosgordd. Yn y llun hefyd mae'r gyn-Frenhines, Karen Wyn Hughes.

PEDWAR CYFAILL O DDEINIOLEN



Tynnwyd y llun uchod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf a bellach does neb o'r pedwar cyfaill yn fyw.

O'r chwith i'r dde: David Arthur Jones, Llys Gwynedd; Percy Roberts, Tŷ'r Ysgol (lladdwyd yn y rhyfel); David Pierce Owen, Ffridd (lladdwyd yn y rhyfel); Will Price, Cryngae. Llun drwy garedigrwydd Dafydd Orwig.

CWIS PLAID CYMRU



Nos Wener, Mawrth 25 cynhaliwyd noson gymdeithasol a drefnwyd gan bwyllgor Deiniolen. Cwis yng ngofal Mr Gwyn Parry. Tim Deiniolen a enillodd o ryw ychydig.

Bethesda: (blaen, chwith i'r dde: Rhiannon Williams, Linda Pritchard, Dilwyn Pritchard a Dylan Edwards.

Deiniolen: (rhes ôl, chwith i'r dde): Dilyn Hughes, Mary Wyn Jones, Alice Griffith, Gwyn Parry - yn absenoldeb Emyr Thomas.

yntau wedi mynd o'r chwael i'r coleg. Bu'r angladd yn Llandinorwig ddydd Llun, Chwefror 28. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i weddw, Eleanor, sy'n enedigol o Ddinorwig, a'i chwaer, Mrs Iona Edwards, Rhosyllen a'r teulu i gyd.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

CWM-Y-GLO

CLWB POBL Y CWM - Yng nghyfarfod pnawn lau, Chwefror 24 daeth Mrs Ifor Jones, Bethel i'r Clwb i roi hanes ei hymweliad â Gogledd America. Yn ystod tair wythnos o wyliau cafodd ymweld â llawer o leoedd diddorol a hanesyddol. Diolchwyd iddi gan y llywydd. Rhoddwyd y te gan Mrs A. Hughes, Bryn a Mrs G. Pritchard, Bryn Gwynedd, a'r raffl gan Mrs Hughes, Bryn. Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Mr Gwilym Williams, Ddôl Bach a Mrs Humphreys, gynt o Dolafon, yn eu profedigaeth ddiweddar.

Pnawn lau, Mawrth 10 cynhaliwyd cyfarfod dathlu Gŵyl Dewi, gyda rhaglen wedi ei threfnu gan Mr R.H. Parry a Mr Llew Hughes. Cymerwyd rhan gan Mrs A. Hughes, Bryn; Mrs E. Jones, Seiont House, Miss E. Hughes, Tan y Graig, Mr a Mrs R. Roberts, Bryn Gro, Mrs E. Hughes, Hyfrydle, Mr R.H. Parry, Mr Llew Hughes. Rhoddwyd y te gan Miss E. Hughes, Tan y Graig a Mrs Peris Roberts, Penrallt. Y raffl gan Mrs Jones, 1 Bro Rhyddallt. Cydymdeimlwyd â Mr H. Pritchard, Bryn Gwynedd yn ei brofedigaeth o golli ei frawd.

EISTEDDFOD CLWB Y GRAIG - Cynhaliwyd Eisteddfod y Clwb yn y Ganolfan nos Wener, Mawrth 18. Y beirniaid oedd: Cerdd: Mrs Ann Pritchard, Llanberis; Adrodd a Llên: Mr J.H. Hughes, Llanberis; Arlunio: Mr Leslie Jones, Penisarwaun; Gwnio a Choginio: Mrs Margaret Williams, Cwm-y-glo, Cyfeilydd: Miss Lowri Roberts, Brynrefail, Llywydd y Noson: Mr Emyr Jones, Bangor, Arweinydd: Mr Llew Hughes, Cwm-y-glo.

Bydd rhestr o'r enillwyr yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

LLONGYFARCHIADAU - i Mr Robin Owen, Talgwynedd am ennill medal aur yng ngornest Judo dros Gwynedd yng Nghaergybi. Ef oedd yr enillydd yn ei bwysau.

MERCHED Y WAWR - Nos Fercher, Mawrth 16 cynhaliwyd noson bleserus iawn i ddathlu Gŵyl Ddewi gydag eitemau amrywiol gan yr aelodau a swper o fwyd traddodiadol.

Gwnaed coffad am ein cyn-aelod Mrs Mair Iola Jones, gan y llywydd, Mrs Hannah Jones, ac anfonwyd cydymdeimlad at y teulu. Hefyd anfonwyd cydymdeimlad at aelodau oedd wedi cael profedigaeth - Mrs Watkins, Mrs Mair Williams a Mrs Verna Jones.

Trefnwyd i ymweld â Theatr Gwynedd ar nos lau, Ebrill 14. Bydd y gangen yn gyfrifol am Stondin Nwyddau yn y Ffair yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn Ebrill 16 a gofynnir am gyfraniadau at y stondin cyn y dyddiad yma.

CYDYMDEIMLAD - Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar Mr Emyr Watkins, Dolwen. Roedd Mr Watkins yn gymeriad poblogaidd iawn, wedi bod mewn busnes yn y becws am flynyddoedd. Bydd colled fawr ar ei ôl. Hefyd â theulu'r ddiweddar Miss Mair Rowlands, Cilmeri, Hafan Elan, Llanrug. Roedd Mair hithau'n gymeriad annwyl iawn ac yn hynod boblogaidd.

Deallwn hefyd i Mr Huw Pritchard, Bryn Gwynedd golli ei frawd yn Nhrefor yn ddiweddar.

Mae Mr Myrddin Owen, Glyndŵr yntau wedi colli chwaer yng nghyfraith yn Llanberis, a Mrs Ruth Hobby, Allt Goch wedi colli ei mam yn Llanberis. Mae Mrs Williams, 13 Dolafon wedi colli ei hŵyr, lan Humphreys, yn y Bontnewydd.

LLONGYFARCHIADAU - i Miss Judith Orritt, Moranedd ar ei

phen-blwydd yn un ar hugain oed, hefyd ei brawd, Nigel, yn ddeunaw oed.



PRIODAS - Fore Sadwrn, Chwefror 19 yng nghapel Ebenezer Deiniolen, priodwyd Melfyn, mab Mr a Mrs Hubert Roberts, Bod Gwynedd a Wendy merch Mr a Mrs W.J. Close, 16 Maes Gwylfa, Deiniolen. Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis a'r organyddes oedd Miss Rhian Jones. Y gwaspriodas oedd Mr Allan Wyn Jones (ffrind y priodfab) a gweinyddwyd ar y briodferch gan ei chwaer, Miss Iris Close a chwaer y priodfab Miss Sioned Roberts. Yr ystlyswyr oedd Mr Douglas Jones, Bryste a Mr W. Lloyd Owen, Cwm-y-glo. Cafwyd y wledw briodas yng Ngwesty Plas Tan Dinas, Dinas Dinlle, a chyda'r nos daeth nifer o'u cyfeillion yno i ddisgo. Maent wedi cartrefu yn Glasfryn, Cwm-y-glo. Dymunir bob bendith i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

DIOLCH - Dymuna Wendy a Melfyn, Glasfryn ddiolch i bawb am yr anrhegion, arian a llw cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

YN YR YSBYTY - Anfonwn ein cyfarchion i Mrs Johnie Phillips, Groeslon sydd yn ysbty Eryri, Caernarfon wedi cael llawdriniaeth ar ôl cael damwain yn ei chartref. Da gennym ddeall fod Mr David Morris, Y Becws wedi dychwelyd ar ôl llawdriniaeth yn ysbty Bangor.

CROESAWN Mr a Mrs Ifor Evans yn ôl i'w chartref ar ôl ysbaidd gyda'i mab yn Weston Supermare, a da gennym weld Mr Evans wedi gwella mor dda.

Ein cofion cynhesaf at bawb arall yn y pentref sydd yn cwyno ar hyn o bryd.

UNDEB Y MAMAU - Yn y cyfarfod diwethaf nos Fawrth, Mawrth 8, cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Mr a Mrs Orwig Roberts, Llanrug. Dangoswyd ffilmiau a chafwyd sgwrs am eu gwyliau ym Mhatagonia ychydig cyn i'r Archentwyr ymosod ar ynysydd y Falklands. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y rheithor, y Parch Aled Jones Williams. Y westwraig oedd Mrs Nesta West a diolchwyd iddi gan Mrs Hilda Orritt.

DIOLCH - Hoffwn fynegi fy niolch i Mrs Roberts, Bod Gwynedd a Mr Llew Hughes am eu cymorth wrth baratoi colofn newyddion Cwm-y-glo ar gyfer y rhifyn hwn o'r Eco. Hoffwn apelio yr un pryd am enw neu enwau rhai sydd yn fodlon ymgymryd â'r swydd o Ohebydd neu Ohebwyd ar gyfer y pentref. (Tony Elliott - Golygydd Newyddion)

BETWS GARMON

DR BARNARDO - Casglwyd y swm o £3.15 yn y pentref. Diolch i bawb a gyfrannodd. I'r rhai na gafodd y cyfle i roi mae siop yn Stryd Llyn fuasai'n falch o dderbyn yr arian.

YN YR YSBYTY - Mae Mr H. Davies, Plas Nant Lodge yn Ysbyty Môn ac Arfon yn derbyn triniaeth feddygol. Dymunir adferiad buan iddo.

NANT PERIS

GOHEBWYR - Mr a Mrs J.W. Elis, Glanrafon.

LLONGYFARCHION - Dymuniadau da i David John, Llys Awel ar gyrraedd ei ddeunaw oed a hefyd i Elwyn ac Alwyn Searell ar gyrraedd un ar hugain yn ystod Chwefror.

TE PARTI - Cafodd y plant de parti i ddiweddu tymor y Gobeithlu. Mwynhawyd y wledw gan bawb a diolchir i bawb a gyfrannodd ac a fu yn paratoi.

CYNHALIWDYD Cyfarfod Gweddi Chworiydd y Byd yn Festri Rehoboth ar Fawrth y 4ydd. Cymerwyd rhan gan chworiydd Rehoboth a Sant Peris a chafwyd cyfarfod bendithiol.

PROFEDIGAETH - Yn ei gartref, Glyder, Ffordd Capel Coch, Llanberis, bu farw Mr R.W. Jones. Yr oedd Mr Jones yn enedigol o'r Nant yn fab i'r diweddar Mr a Mrs W. Jones, 7 Glanrafon. Gedy weddw a mab, dau ŵyr ac wyres a chydymdeimlir â hwy a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.



DRAENOG

Clywais stori ddiddorol yn ddiweddar gan gyfaill o Ddraenog o'r De. Soniodd am yr helynt a gafodd gyda rhywun o'r enw Carol o Frynrefail a aeth i Gaerdydd i weld ffrindiau - ond a orffennodd yn Abertawe trwy gamgymeriad! Enghraifft arall o'r Gogs a'r Hwntws yn cael trafferth i ddeall ei gilydd hwyrach!!

O'r Eisteddfod Cwm y Glo



Mr Llew Hughes, Arweinydd y Noson gyda'r llywydd, Mr Emyr Jones, Bangor.



Rhai o'r plant a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod.

Teledu Burum Cyf.
yn cyflwyno



OND O DDIFRI' MADAM SARA!

yn Theatr Gwynedd, Bangor
Ebrill 13 (Nos Fercher), 14 (Nos Iau),
15 (Nos Wener) am 7 o'r gloch

Sioe sgwrsio gyda nifer o westeion
diddorol yn cael ei recordio ar gyfer S4C

Tocynnau AM DDIM o Theatr Gwynedd
neu oddi wrth

Teledu Burum Cyf., Penygroes,
Caernarfon. Ffôn Penygroes 881722

PENISARWAUN

Gohebydd Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

YSGOL TANYCOED - Punt y pen - Casglodd nifer o aelodau'r Urdd gyfanswm o £78.38 tuag at Gronfa Punt y Pen y mudiad.

Diolch i bawb a gasglodd ac a gyfrannodd.

Glan-llyn - Yn ddiweddar fe dreuliodd 15 o'r plant hynaf benwythnos yng Ngwersyll Glan-llyn; cafwyd cwmni aelodau o nifer o ganghennau eraill.

EGLWYS SANTES HELEN - Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blyneddol Undeb y Mamau nos Lun, Mawrth 7. Darllenodd Mrs O.L. Roberts y fantolen ariannol a chafwyd cofnodion y flwyddyn a aeth heibio yn gryno gan Mrs M. Davies. Ailetholwyd y swyddogion am dymor arall. Arweiniodd y ficer y Parchedig Aled Edwards yr aelodau trwy wasanaeth byr o'r ysgrythur. Rhoddwyd y te gan Mrs B. Mowll a Mrs M. Davies.

Brawychwyd y pentref a'r ardal nos Lun, Mawrth 7 pan ddaeth y newydd am ddamwain angeuol Diane Griffiths, 22 Bryntirion a hithau ond yn 19 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r rheini, ei brawd, chworiydd a'r teulu yn eu profedigaeth fawr.

Hefyd estynnwn ein cydymdeimlad â Mr Abbott Bryntirion yn ei brofedigaeth o golli ei briod.

GWASANAETHAU'R PASG - Dydd Gwener y Groglith - Litani a Myfyrdod am 10.30 a.m. Sul y Pasg - Cymun Teuluol dwyieithog am 10.00 a.m. Gosber yn Gymraeg am 5.00 p.m. Festri'r Pasg nos Fawrth 12 Ebrill am 7.00 p.m.

CLWB YR HEULWEN - Cafwyd cyfarfod cyntaf y tymor ddydd Mawrth, Mawrth 15. Y wraig wadd oedd Mrs Eirlys Jones, Bryn Hyfryd a rhoddodd dipyn o'i hanes yn Hong Kong. Rhoddwyd y te gan Mrs J.M. Jones a Mrs P. Williams o Lys y Gwynt. Enillodd Miss Gwenifer Jones y raffl.

Aeth y merched a enillodd y darian yn y Ffug Eisteddfod allan i Foelas House Llanrug i ddathlu a swpera nos Fercher, Mawrth 16 a chafwyd noson ddifyr.

Dymunwn wellhad buan i Mrs Margaret Williams, Carrog sydd wedi cael llawdriniaeth, ac hefyd i Mr William Jones, 13 Bryntirion yntau hefyd wedi cael llawdriniaeth.

LLONGYFARCHWN - Mr a Mrs G. Thomas, 4 Bryn Tirion ar enedigaeth mab bach, Vincent Lea, brawd i Steven.

CYDYMDEIMLWN - â Mrs Ann Jones, Ty'n Gerddi yn ei phrofedigaeth o golli ei hewyrth ac hefyd nai. Fe gollodd Mrs Jones, Plas Dulas berthynas hefyd yn ddiweddar. Ein cydymdeimlad â hithau.

CAPEL Y BOZRA - Bydd gwasanaeth arbennig i'r plant fore Sul y Pasg yng nghapel y Bozra ac fe fydd y casgliad yn mynd tuag at yr atgyweirio.

CLWB Y MERCHED - Cafwyd cyfarfod nos Fawrth, Mawrth 22. Y wraig wadd oedd Amranwen Lynch a chawsom noson ddifyr iawn yn ei chwmmi. Rhoddwyd y te gan Mrs B. Hughes a Mrs Nancy Jones ac fe enillodd Mrs Eirlys Jones y raffl.

Mae'r Annibynwyr a'r Wesleiaid yn cyd-addoli yn y capel ers yn agos i 6 mlynedd bellach ac yn trefnu'r gwaith atgyweirio ar gyfer y dyfodol agos.

DERBYN YN AELOD - Pnawn Sul, Chwefror 27 derbyniwyd Mrs Gwenan Davies, Snowdon View yn aelod gan Weinidog y Wesleiaid, y Parch Eryl Blainey.

Ym myd yr adar

gyda Ieuan Williams

Y MIS yma canolbwyntiaf ar y "canary".

Cred llawer yn ddigon naturiol, mai'r unig liw a geir ar y "canary" yw melyn, ond erbyn hyn gwelir rhai gwyn, glas, gwyrdd, gwinau a choch yn ogystal â'r melyn traddodiadol. Cymerodd hyn ddegau o flynyddoedd o gymharu gofalus, wrth gwrs.

Aderyn di-sylw yw'r "canary" gwyllt gwreiddiol - y peth tebycaf welsoch i aderyn y to, a thrigant (yn naturiol ddigon!) yn Ynysoedd Canary nepell o Ogledd Affrica. Daethpwyd â hwy i Ewrop gyntaf gan longwyr tua 400 mlynedd yn ôl, ac yn ystod yr amser er hynny datblygwyd hwy i'r safon presennol drwy ddidoli didrugaredd.

Yn ystod y can mlynedd diwethaf yma 'cynhyrchwyd' gryn bymtheng math o'r aderyn yma ym Mhrydain, gyda phob ardal yn datblygu ei math arbennig ei hun. Erbyn hyn, wrth gwrs, gyda thrafnidiaeth hawdd gan bawb bron, gwelir y gwahanol fathau mewn pedwar cwr. Nid yn unig prynir a gwerthir yr adar ganddom ymysg ein gilydd ym Mhrydain, ond allforir hwy ledled byd, gan fod Prydain ar y blaen, yn sicr, ym myd yr adar. Ddwy flynedd yn ôl aed â chryn ugain "canary" o ardal 'Eco'r Wyddfa' cyn belled â Malta, a'r llynedd daeth cynrychiolaeth o'r Unol Daleithiau i brynu "canaries" yng Ngwynedd a Chlwyd!

Er yr holl ddatblygu a'r newid dwylo cedwir yr enwau plwyfol ar y gwahanol fathau o hyd, ond yn anffodus ni chysylltir yr un math yn uniongyrchol â Chymru.

Dyma nodiadau byr ar rai mathau: **Lizard Canary:** Dyma'r aderyn sydd debycaf i'r "canary" gwreiddiol. Megir hwn yn arbennig am ei farciau patrymol ar ei fol a'i gefn. Un fantais fawr sydd iddo fel aderyn sioe nid yw o unrhyw fudd ar ôl ei ben-blwydd cyntaf gan fod y marciau'n gwario fel mae'n mynd yn hŷn. Ychydig iawn o'r rhain a geir yng Nghymru, ac ni wn am neb yng Ngwynedd yn eu magu. Bu gennyf rai flynyddoedd yn ôl ac maent yn dal ymysg fy ffeffrynnau o hyd.

Scotch Fancy: Aderyn gwantan di-siâp ydyw hwn ar ffurf bwa, ac i mi o leiaf, ni ddylid magu a datblygu unrhyw greadur mor annaturiol.

Yorkshire Canary: Dyma un o'r adar mwyaf urddasol, a saif yn unionsyth ar ffurf moren. Gelwir ef yn aml yn 'Guardman'.

Lancashire Coppy: Aderyn tebyg i'r Yorkshire ond fod ganddo gap o blu yn disgyn dros ei lygaid a'i glustiau.

Aderyn prin erbyn heddiw.

Norwich Canary: Y trymaf o'r holl "canaries" a gwelir enghreifftiau gwych o hwn yn ein sioeau lleol.

London Fancy: Aderyn wedi peidio a bod er ein holl wybodaeth fodern. Esgyll a chynffon dywyll gyda gweddill y corff yn felyn clir.

Goster Canary: Dyma'r math sydd yn lledaenu gyflymaf mewn poblogrwydd ym Mhrydain. Mae gan hwn eto gap pluog dros ei ben. Ei lys-enw yw'r 'Beatle'.

Border Canary: Y 'border' yn y cyswllt yma yw honno rhwng Lloegr a'r Alban a dyma'r math mwyaf poblogaidd yn ddi-os gyda channoedd i'w gweld yn ein sioeau lleol. Bydd tua 2,500 o'r rhain yn y brif sioe yn Winsford yn flynyddol - dyna i chwi waith barnu!

Fife Canary: Yr ieuengaf o'r "canaries" ac yn ennill tir yn gyflym. Aderyn tipyn yn llai na'r Border ydyw.

Red Factor: Dyma aderyn a fegir am ei liw yn unig a rhoddir math o "liw" a elwir yn "Carophylle red" yn ei fwyd i gael dyfnder coch i'r lliw gwreiddiol. Bwydir y fflamingo yn y sŵ gyda bwyd tebyg fel bod y plyn yn troi'n binc.

Roller Canary: Megir hwn am ei gân yn unig, ac mae'n eithaf prin

Y ceiliog yn unig sy'n canu - felly gwelwch beth yw swyddogaeth yr iâr! Mae'r gweddill i gyd yn canu, wrth gwrs, ond nid cystal â'r Roller.

Os oes gennych "canary" yn y tŷ y tebygrwydd yw mai un ai Border neu Gloster sydd gennych, gan mai hwy sydd yn y mwyafaf yn y cylch yma, a phe gofynnid i mi gan rywun sydd â blys magu, dyma'r ddau fath a gymeradwywn gan eu bod yn weddol hawdd i'w magu. Mae'r Roller, Fife a'r Red Factor hefyd yn cenhedlu'n ddigon didrafferth, ond fel y crybwyllais, prin braidd ydynt yn ein cylch. Mae'r Norwich, yr Yorkshire a'r Lizard dipyn yn biwis, a rhaid cael dipyn o brofiad an y belt cyn mentro arni gyda'r rhain. Mae'r gweddill i'r arbenigwyr yn unig.

Mae prisiau yn gwahaniaethu hefyd. Gellir prynu pâr o Glosters neu Fife am ryw £12; pâr o Borders am tua £16; rhaid dringo i rhyw £30

gyda'r Yorkshires a £45-£50 gyda Norwich. Anodd iawn ydyw gallu prynu mathau prin gan fod y rhai sydd yn eu magu yn dueddol, gan ei bod yn grefft ynddi ei hun bron, i gyfnewid gwaed ymysg ei gilydd yn

unig yn hytrach na gwerthu i rywun y tu allan i'w cylch.

"Nid aur yw popeth melyn," meddai'r hen ddihareb Gymraeg. Mentraf gyfansoddi un newydd - "Nid melyn yw pob 'carary'."



Dyma lun o sied ddelfrydol i gadw "canaries" ynddi. Sylwer ar y cewyll gyda pharau o adar ynddynt yn paratoi at fagu fel mae'r gwanwyn yn datblygu, a chewyll mwy o faint yn y pen draw ar gyfer y cywion pan fyddant ddigon hen i adael eu rhieni. Perchenogion yr ystafell yma yw Mr Treflyn Thomas, a'i ddau fab, Dafydd a Gwyn, Treforfan, Y Waunfawr, ac ynddi megir y ddau fath poblogaidd, Borders a'r Glosters.

CWMNI DRAMA LLANBERIS

CYNGERDD gan

GÔR GODRE'R GARTH PONTYPRIDD

(Enillwyr Cenedlaethol)

(Arweinydd Mr Wil Morus Jones)

yng Nghapel Coch, Llanberis

Nos Sul Y Pasg, Ebrill 3 am 8 o'r gloch

Llywydd: Mr John Hugh Hughes

Prifathro Ysgol Dolbadarn

Tocynnau £1

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod
yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol
ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym
wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i
lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus
gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch
cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar
gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor.
Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un
o'n cynghorwyr; cewch drafod eich
syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 52606

Welsh
Development Agency

Mynnwch eich

PAENT a PHAPUR PAPURO

oddi wrth

E.WILSON HUGHES

**84 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: Llanberis 870491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

YSGOL TAN-Y-COED PENISARWAUN

HEDDIW

Saif ein hysgol ni mewn pant rhwng Brynrefail a Penisarwaen. Mae hi wedi cael ei hadeiladu yna oherwydd yn yr hen hen ddyddiau roedd plant o Frynrefail yn dod yma, ond rwan dim ond Angharad sydd yn dod o'na.

Mae yna fferm o'r enw Tan-y-coed wrth ymyl ein hysgol; mae yr ysgol yn cael ei galw yn Ysgol Tan-y-coed ar lafar, ar ôl y fferm.

Mae hen dŷ'r ysgol wrth ymyl yr ysgol; ei hen enw oedd Ancrum; ond ei enw rwan ydy Llain y Werin.

Yr ydych yn medru gweld Graig Fawr o'r ysgol. Mae o'n lle da i chwarae rhyfel. Mae afon Seiont tua hanner milltir o'r ysgol. Weithiau yr ydym yn mynd i lawr ati i arlunio hefo Mr Jones.

Mae'n hysgol ni yn hen ffasiwn o'r tu allan, ond mae'n o newydd y tu mewn. Llynedd cafodd bob dosbarth nenfwd newydd yn ystod gwyliau'r haf a cafodd dosbarth Mrs Ann Thomas sefathrawes y Babanod lawr newydd.

Mae tair athrawes ac un prifathro, ac mae pedwar dosbarth o'r Babanod isaf i Safon 4. Bydd Mr Jones ein prifathro yn dweud fod hon yn rhyw ysgol annifyr iawn am fod Mrs Ann Jones, Mrs Ann Evans a Mrs Ann Thomas yma. Mae Mrs Jones yn dysgu Safon 1 a Babnod uchaf, Mrs Thomas yn dysgu'r babanod, neu'r plant lleiaf, Mrs Evans yn dysgu Safon 2 a 3 a Mr Jones yn dysgu Safon 4.

Mae yma un cogyddes yn yr ysgol a dwy helpwraig. Y gogyddes yw Mrs Hughes neu Anti Bet a'r helpwyr yw Mrs Davies a Mrs Williams, neu Anti Mary ac Anti Margaret.

Mae tŷ o'r enw Llwyn Derw tua canllath o'r ysgol; dyna lle mae Mrs Williams y gofalwr yn byw. Mae hi yn dod i lawr yr allt yn fân ac yn fuan bob dydd i agor y drws. Weithiau yr ydym yn ei gweld hi yn dod i lawr yr allt hefo'i daeargi, Gwyn.

Ein dynes Lolipop yw Mrs Lamb; mae ganddi ddau o blant sef Darren a Glenn a bydd Mrs Lamb yn gofalu amdanom.

Eleni rwyf yn gadael yr ysgol a mynd i ysgol fawr Brynrefail. Os gwn i fydd gennyf hiraeth?

Sioned Roberts
Naethan Eagles

GAN MLYNEDD YN ÔL

Yn 1874 yr agorwyd Ysgol Tan-y-coed. David Prosser oedd y prifathro.

Doedd gan y plant ddim llawer o ddiddordeb yn yr ysgol, ac ychydig iawn a ddeuai i'r ysgol yn rheolaidd.

Roedd gan y plant fwy o ddiddordeb mewn chwarae, a doedd eu rhieni ddim yn eu gorfodi i fynd i'r ysgol chwaith. Am hyn roedd y prifathro yn flin iawn, ac mae llawer o nodiadau cas amdanynt yn y llyfr Log Gynt.

Un prifathro oedd yn yr ysgol a thri neu bedwar o ddisgybl-athrawon. Roedd y disgybl-athrawon yn cael gwers gan y prifathro am 8.30, wedyn roedden nhw i fod i ailadrodd y wers i'r plant.

Yn ôl yr hen lyfr Log, roedd yma tua 200 o blant yn yr ysgol, sy'n wahanol iawn i heddiw.

Dyma rai o'r hanesion o'r Llyfr Log; wrth gwrs rydw i wedi gorfod ei gyfieithu i'r Gymraeg.

O'r Llyfr Log

Rhagfyr 12 1875: Cafodd dau ddisgybl eu gwahardd o'r ysgol am fod yn anufudd. Eu henwau Jane Morris a Morris P. Morris. Er nad bai y plant oedd o ond bai eu rhieni.

Mehefin 9 1876: Presenoldeb yn dda iawn; mae'r tywydd yn ardderchog. Mae Safon dau yn araf ac yn ddwl. **Ionawr 7 1881:** Presenoldeb gwael; doedd o ddim fel oedd o i fod. Roedd oren wedi cael ei roi i bob disgybl a oedd yn pasio arholiad yn llwyddiannus.

Awst 19 1881: Presenoldeb yn dda. Ond mae'r plant wedi anghofio mwy yn ystod y gwyliau nag a ddysgasant o'r blaen.

Awst 24 1883: Daeth bachgen i'r ysgol yn y prawn ar ôl bod yn chwarae triwant. Cafodd ddwy strôc o'r gansen, un ar bob llaw.

Chwefror 16 1884: Bore dydd Llun torrwyd gwydyr un o'r ffenestri, roedd wedi cael ei dorri yn ddamweiniol gan un o'r athrawon ond nid oedd y prifathro yn saff sut yn union oedd wedi digwydd. Roedd y tamaid gwydr yma yr un cyntaf i dorri ers agor yr ysgol chwe mlynedd yn ôl.

Awst 20 1885: Roedd y presenoldeb yn dda iawn trwy'r wythnos, mae te parti yn mynd i fod yn fuan ac mae'r presenoldeb yn well am fod y te parti yn agosáu.

Eurgain Haf
Elaine Lewis
Sioned Roberts

Atgofion y Dr. John Gwilym Jones



Dr John Gwilym Jones yn siarad am ei ddyddiau ysgol efo Safon Pedwar.

Ddoe fe ymwelodd y Dr John Gwilym Jones â ni. Fe arweiniodd ni i'w ddyddiau ysgol yn ysgol fach Penfforddalen.

Roedd Mr Jones ein hathro wedi darllen y stori i ni, ond roedd hi'n well o lawer i gael clywed y geiriau o lygad y ffynnon.

Roedd y Dr John Gwilym Jones yn byw yn Y Groeslon; drws nesa' iddo roedd Linor yn byw. Roedd John Gwilym Jones wrth ei fodd yn cael mynd i dŷ Linor i chwarae. Mrs Jones oedd enw mam Linor, ond roedd hynny'n ormod o lond ceg i John Gwilym Jones, felly roedd o'n ei galw yn "Shôsh".

Yn llaw Linor roedd o'n mynd i'r ysgol, a phan ddeuai'r dyn tynnu'r lluniau, arferai Linor boeri ar ei wallt a gwneud rhesen dwt, a oedd yn gwahanu ei wallt yn ddwy ran.

"Un diwrnod fe ddaeth ceffyl pren i'n hysgol ni; roedd o'n hardd iawn, rydw i'n cofio'n iawn; roedd yr athrawes yn gofyn i ni lle roedden ni eisiau mynd ar y ceffyl pren; os oeddech chi'n dweud dudwch "Penygroes" doeddech chi dim ond yn cael reid fach ddim gwerth ei chael, ond os oeddech chi'n dweud "Bangor" roeddech chi'n cael reid hir. Pan roedd hi'n dro imi roeddwn i'n dweud "Califfornia". Doeddwn i ddim yn gwybod lle roedd "Califfornia" ond roedd gan fy mam berthynas a oedd yn byw yno. Un tro flynyddoedd yn

ddiweddararach fe es i "Califfornia" ar y trên; roedd o'n cymryd tua tri diwrnod, roeddwn i'n meddwl nad oeddwn byth yn mynd i gyrraedd yno. Mae'n siwr mai dyna pam oeddwn i yn cael reid hir ar y ceffyl pren!

O mae'n rhaid imi fynd i Ysgol Penfforddalen rhywdro i weld os ydyn nhw wedi cadw y ceffyl pren, o roedd o'n hardd iawn a lliwgar."

"Wedi mynd i'r ysgol fawr ym Mhenygroes, roedd prifathro o'r enw Mr Lynton yno. Dyn tal tenau sarrug byth yn gwenu nag yn hwyliog. "Main" oeddem ni'r plant yn ei alw. Wedi i'r plant gael eu gwers byddai y plant eraill yn gofyn "Sut dempar sydd ar Main?"

Mewn dipyn fe aned mab iddo, brawd i bedair geneth. Gwirionodd Mr Lynton ond mewn tridiau newidiodd ei wên, fe fu farw y bachgen. Wrth imi a'n ffrindiau basio ystafell Main daeth tawelwch ymhob man, dim ond sŵn crio Mr Lynton ni welais o'n crio o'r blaen ac o'r dydd hwnnw, roeddwn yn gwybod fod gan y dyn yma, er ei fod yn flin, deimladau yn ei galon."

Eurgain Haf, Hayley Barton a
Sioned Williams

Wrth ein Bodd?



Rhai o Ddyddiadau Glan-llyn

Nos Wener: Wedi gwneud ein hunain yn gartrefol. Wedi cael gwely yn ymyl y ffenest. Does gennyf ddim hiraeth gan fy mod wedi bod yma o'r blaen.

Bore Sadwrn: Yn nhŷ Tegid mae genod Penisarwaen. Wedi brecwast aethom i'r gampfa, lle buom ar y trampolin.

Pnawn Sadwrn: Llusgodd ein hathro ni i Lanuwchllyn i weld cerflun o O.M. Edwards a'i fab. Er bod yr hogiau ar ganol gêm 'Space Invaders' bu'n rhaid iddynt ei adael.

Yn gyntaf aethom i fynwent lle roedd mab O.M. Edwards wedi ei gladdu. Ar ei fedd mae bathodyn yr Urdd, am mai fo sefydlodd yr Urdd.

Wedi hynny aethom i weld cerflun y tad a'r mab. Fel rydych yn gweld nid ydym yn gwenu am ei bod yn bwrw glaw ac yn oer. Doedd gan neb awydd i fynd i weld cerflun sych difywyd.

Yna gadael Llanuwchllyn a mynd i olwg Coed y Pry, cartref y bachgen O.M. Edwards.

Wedi hyn i gyd, mynd yn ôl i Lanllyn i gael te ac yn ôl at y 'Space Invaders'.

Sioned Williams

Ofnadwy!

Ofnadwy ydi aderyn marw,
Ofnadwy ydi dau gorn tarw,
Ofnadwy ydi wyneb gwrach,
Gwaeth na'r rhain yw fy mrawd bach.

Michael J. Wroe



Dyma Barti Canu Dylan a gafodd gyntaf yn yr Eisteddfod Gylch; ac yn y blaen mae Anjia a gafodd ail am ganu'r piano dan ddeuddeg.


Dylan, y bachgen yn y cefn, a gafodd ail am ganu unawd cân werin. Roedden ni yn canu 'Enfys Ebrill' o dan ddeuddeg, yn y parti unsain. Yn y cefn mae Sioned Williams, Dylan Pierce Williams, fi a Rhian Williams. Yn y blaen mae Amanda Orrock, Bedwyr Evans, Iola Williams, Eurgain Evans ac Anjia Bennet.

Rydym yn edrych ymlaen i fynd i'r Eisteddfod Sir ym Mangor a gobeithio y caiff Dylan ac Anjia hwyl arni.

Sioned Roberts

Bach yw'r fesen ar y goeden
Bach yw traed fy chwaer iau, Elen
Bach yw'r llygoden lwyd mor chwim
Ond lleiaf fyth ydyw 'DIM'.
Sioned Roberts

Gwyn a phur yw'r distaw eira,
Gwyn yw'r wyn yn y caea',
Gwyn yw dillad yr hyfryd gôr,
Ond du yw calon Jane "next door".
Dylan Rhys Jones



Hen Benillion Newydd


Du yw'r frân yn bowld ar y to,
Du yw cysgod y bwgi bo,
Du yw wyneb a dwylo Sam,
Ond duach fyth yw tost fy mam.

Mark Porter

Fy Nhaf

Poen yw'r tractor sydd ddim yn gweithio,
Poen yw'r drain sydd yn fy mhigo,
Poen yw'r tyrchod sydd ar y ddôl,
Ond gwaethach fyth bod ar y dôl.
Dylan Pierce Williams

Enwogion Cymysg Cymru



Dyma rai o enwogion Cymru, ond mae eu henwau wedi cymysgu. Fedwch chi ysgrifennu yr enwau iawn?

Berwyn Paterson

BRO'R ECO

P	A	R	H	C	L	B	G	C	H	W
L	E	T	H	E	B	C	D	I	E	A
I	N	N	S	L	L	A	N	R	U	G
A	A	G	I	I	B	N	N	N	R	G
F	N	I	P	S	R	F	G	A	F	Y
E	T	W	D	H	A	E	C	N	H	M
R	P	R	A	W	Y	R	B	T	S	W
N	E	O	R	P	H	W	W	N	L	C
Y	R	N	U	F	P	E	H	A	A	T
R	I	I	N	H	L	D	M	T	U	L
B	S	D	E	I	N	I	O	L	E	N

Dyma bos i chwi ei ddatrys. Mae enwau un ar ddeg o bentrefi Bro'r Eco wedi eu cuddio ynddo.





Gweld yr oenig ar y bryn
Gweld llygaid glas fy nghariad, Glyn
Gweld yr alarch gwyn mor dlws
A gweld y rhosyn wrth y drws.

Sioned Roberts

Thws yw...

Thws yw'r mwsog ar y cerrig,
Thws yw cynffonnau ar yr helyg,
"Thws wyf finnau," meddai'r wrach,
Thwsach fyth yw rhosyn bach.

Angharad



Gorffennwch y balwn ac wedyn lliwiwch.

ADAR AR EU HADAIN



Fedwch chi adnabod yr adar hyn?
Dyna yw sialens Anja a David i chi.

LLANBERIS

CLWB YR HENOED – Bu dros gant o aelodau Clwb yr Henoed yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Fictoria pryd y mwynhawyd cinio ardderchog. Croesawyd yr aelodau, yr aelodau newydd a'r gwahoddedigion gan y Llywydd. Cyfeiriwyd at yr aelodau a gollwyd yn ystod blwyddyn. Ategwyd y cyfan gan y Parch Gwynfor Williams. Dilynwyd y wledd gyda rhaglen amrywiol a difyr iawn dan lywyddiaeth 'Arwel' – un o fechgyn yr ardal, ac un o barti 'Hogia'r Wyddfa'. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r cyfeillion hynny a fu'n cludo'r pensïonwyr yn ôl a blaen i'r cinio, a'r cyfeillion oedd yn cludo'r 'Prydau Parod' (Meals on Wheels) ddwywaith yr wythnos yn wirfoddol.

Diolch arbennig hefyd i'r cyfeillion yma am roddion ariannol sylweddol iawn i'r Clwb: Mr a Mrs T. Maxwell, Stryd Warden, Mr a Mrs Eurwyn Jones, Ffordd Capel Coch, Mr a Mrs Ted Thomas, Ffordd Tŷ Du, Mr Gwynfor Williams, Stryd Newton, Mrs Lillian Jones, Ffordd Tŷ Du, Mrs Williams, Voelas, Stryd Newton, Mrs Maggie Williams, Rallt Goch.

CLWB ERYRI – Yng Ngwesty Gwynedd y bu aelodau Clwb Eryri yn dathlu Gŵyl Ddewi. Cyflwynwyd y gŵr gwadd, Mr R. Alun Evans, BBC, Bangor gan y llywydd, Emllyn Davies, Waunfawr. Wedi'r ciniawa diddorwyd yr aelodau gan Evan Bryn ac Annette o Ddinorwig. Am gyfansoddi dyfarnwyd y wobwr gyntaf gan Harri Gwyn, Llanrug i Rol Williams, Waunfawr. Mwynhawyd noson eithriadol o hwyliog a diolchwyd i bawb am eu cyfraniad gan Mr Iolen Hughes, Rhiwlas.

PERSONOL – Rhai wythnosau'n ôl pan yn siopa yn y pentref disgynnodd Miss Parry Pritchard, Central Garage ac anafu ei choes. Deallir ei bod yn gwella a da yw clywed hynny.

YR URDD – Bu amryw o blant yr ardal yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch Arfon o'r Urdd – rhai o Ysgol Dolbadarn a rhai o Ysgol Brynrefail. Llongyfarchwn Alison Edwards a Jane Parry am yr unawd 12-15 oed, ac eto Alison Edwards yn ail ar yr unawd gerdd dant 12-15 oed. Parti Einir o Aelwyd Llanberis fu'n fuddugol dan 12 oed. Llongyfarchiadau iddynt oll.

UNDEB Y MAMAU – Cyfarfu aelodau o Undeb y Mamau Eglwys Sant Peris a Sant Padarn ar Mawrth 1af dan arweiniad y Parch A.W. CHerry. Cafwyd anerchiad byr gan Mrs M. Lloyd Williams, Llanrug a diolchwyd iddi gan Mrs L. Pugh a Mrs Kathleen Williams, ac hefyd i Mrs Dorothy Williams, Mrs Betty Humphreys, Mrs D. Phillips a Mrs W. Henry Parry am y gwpaned de a drefnwyd.

EISTEDDFOD Y SIR – Llongyfarchiadau i Barti Einir dan 12 oed am lwyddo yn Eisteddfod y Sir. Hefyd Rhian Owen yr Unawd 15-19. Byddant yn mynd i Eisteddfod Aberafan. Pob lwc iddynt yn wir.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yng Ngwesty'r Erw Fair. Llywyddwyd gan Mrs Hannah Jones. Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo a thrafod ychydig o faterion. Cyfeiriodd y llywydd at y ffaith fod Mrs Martin Owen yn methu bod yn bresennol o achos damwain, a dymunwyd adferiad buan iddi. Yna eisteddodd yr aelodau i lawr i swper ardderchog i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cafwyd adloniant wedi ei drefnu gan aelodau o'r pwyllgor i ddiweddu'r noson, a chymerodd rhai o'r aelodau ran mewn gêm o 'Rhowch i mi Gliw'.

DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD – Ar Fawrth 4 yn Ffestri Nant Padarn daeth nifer o chwiriorydd

Gohebydd: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol, Llanberis (870220)

yngghyd i gynnal cyfarfod gweddi dan arweiniad Mrs Gwynfor Williams, Capel Coch, a Mrs Eluned Mari Jones wrth yr offeryn. Cymerwyd rhan gan Mrs Nancy Jones o Eglwys Sant Padarn, Mrs Hannah Jones a Mrs Dilys Owen o Eglwys Nant Padarn. Mrs Dilys Bayliss, Mrs Carys Hughes, Mrs J. Menna Jones, Mrs Dwynwen Roberts, Mrs R. Lloyd Jones o Gapel Coch. Casglwyd yr offwrwm gan Mrs Enid M. Williams.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Chief Inspector Derek Roberts, Bangor a'i briod yn eu colled fawr ym marwolaeth sydyn eu mab John. Fe gofiwn y teulu yn byw yma yn Llanberis am rai blynyddoedd a'u tri phlentyn yn mynychu'r ysgol leol. Bu Mrs Mair Roberts yn weithgar dros ben gyda Chlwb yr Henoed, a thra yn byw yn Llanrug cyn symud i Fangor cadwodd ei chysylltiad â'r mudiad.

Collodd Mrs Doris Roberts, Fron Oleu ei brawd, Gwilym Williams, Ddôl Bach, Cwm-y-glo. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf a Lillian hefyd yn ei phrofedigaeth.

Derbyniodd Mrs Jane Lloyd Jones, Peris View newyddion trist o lwerddon. Bu farw ei brawd, Bob, a wnaeth ei gartref er y rhyfel ddiwethaf yn Lisbon, Gogledd Iwerddon. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Mrs Jane Lloyd Jones a'i chwaer, Mrs Clara Allsup, Stryd Ceunant.

LLONGYFARCHIADAU – i Hefin a Sheila, Grove House ar enedigaeth merch fach, Sarah Ann, chwaer fach i Rachel Ann.

YN YR YSBYTY – Yn ystod y mis hwn eto mae amryw o'r ardalwyr wedi eu caethiwo i'w cartrefi a rhai i'r ysbtyai. Erbyn hyn mae rhai wedi dychwelyd gartref, ond rhai yn aros o hyd ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol. Dymunir adgyfnerthiad llwyr i bob un ohonynt.

Mrs May Roberts, Stryd y Ffynnon, Mrs Neli Morris, Stryd Turner, Mrs Enid Roberts, Fflatiau Maes Padarn, Mrs Beti Hughes, Stryd yr Wyddfa, Mrs Elizabeth Jones, Maes Padarn, Miss Karen Jones, Plas Coch ac Einir Thomas, Stryd y Ffynnon sydd gartref ar ôl triniaeth yn Ward y Plant, Ysbyty Bangor, ac wedi bod yn eithriadol o ddewr ac ufudd yno. Roedd croeso mawr iddi gartref.

MARWOLAETHAU – Grace Owen – Ar Fawrth 1af yn ei chartref yn Stryd Siallot bu farw Grace – priod Aled Owen. Roedd yn 75 mlwydd oed ac wedi cael blynyddoedd o salwch blin a'i dioddef yn wrol a dirwgnach, ond cafodd ofal tyner ei phriod hyd y diwedd. Un o blant yr ardal ydoedd, a phan yn holliaich bu yn ymbleseru a chanu ac adloniant – yn aelod ffyddlon iawn o'r 'Parti Noson Lawen' a'r Côr Merched. Aelod o Eglwys Nant Padarn ydoedd. Trefnwyd yr angladd ar Fawrth 5, pryd y bu gwasanaeth preifat yn y tŷ ac hefyd yn yr Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig L.G. Roberts, Chwilog. Cydymdeimlir â'i phriod, Aled Owen, Mangel eu mab, Maud ei chwaer, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Ceinwen Lloyd Jones: Yn ei chartref Bod Fair, Stryd Fawr ar Fawrth 2 bu farw Ceinwen, priod Hugh R. Jones, yn 68 oed. Er ei tharo yn wael rai misoedd yn ôl, tybiai pawb ei bod yn gwella yn dda, a daeth ei marwolaeth yn fawr i'r ardalwyr. Cymeriad hynod o hamddenol a chymwynasgar ydoedd yn llawn brwdfrydedd gyda phob achos da, yn enwedig gyda'r achos ym Mhreswylfa. Ar hyd y blynyddoedd rhoddodd 'Ceir' (fel yr adwaenai pawb hi) ei gorau ymhob ffordd i gario ymlaen yr hen gapel bach. Bu ffarwelio â'r capel yn ergyd

go drom iddi, ac er hynny bu'n adrodd ac ailadrodd yr hen atgofion droeon. Cydwybod dawel wna galon ddedwydd – meddai'r hen air – agwir ydoedd ym mywyd Ceir. Yn hamddenol a dedwydd magodd ei theulu. Hanu o deulu cerddorol a wnaeth a dilynodd hithau yr un llwybr, yn cefnogi bob parti a chôr a chanu yn ei dydd. Roedd yn aelod gyda'r 'Noson Lawen', a'r Côr Merched a hynny gydag arddel.

Trefnwyd yr angladd ar Fawrth 5 gyda'r Parchedigion John Samuel Roberts a Hugh John Hughes yn gwasanaethu yn y tŷ ac yn yr Amlosgfa ym Mangor gyda Mr Huxley Thomas wrth yr organ. Cydymdeimlir â'i phriod, ei mab Elwyn, ei dwy ferch Breda a Dilys Mai, ei chwiriorydd Megan ac Annie Wilson, ei brawd Evan Wilson, a'i theuluoedd i gyd yn eu colled.

Richard W. Jones – Bu farw Richard W. Jones yn ei gartref, Glyder, Ffordd Capel Coch ar Mawrth 10. Ganwyd a magwyd ef yn Glanrafon Terrace, Nant Peris, ac wedi gadael yr ysgol aeth i weithio i Chwarel Dinorwig. Yn ystod y blynyddoedd gadawodd y cŷn a'r morthwyl a'r gweithio ar wyneb y graig, a chael ei benodi yn swyddog a diweddu fel Brif oruchwyliwr y Chwarel. Wedi ymddeol rai blynyddoedd yn ôl daeth i gartrefu yn Llanberis.

Trefnwyd yr angladd ar Fawrth 10 a chladdwyd ef ym mynwent Nant Peris gyda'r Parchedig Ganon R. Jones yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â'i briod a'r unig fab a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Margaret Jones – Yn Ysbyty'r Gallt y Sil yn 79 oed bu farw Mrs Margaret Jones, ar Fawrth 12. Bu'n wael ers rhai misoedd, a gorfu iddi adael Cartref Pengwaith a symud i'r ysbyty. Merch i'r diweddar Richard a Sara Jones, Llwyn Onn, Stryd-y-dŵr ydoedd – wedi byw er ei geni yn Llanberis. Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris ddydd Mercher, Mawrth 16, gyda'r Parch Meirion Lloyd Davies, Pwllheli. Yn gwasanaethu yng Nghapel Jerusalem ac yna ar lan y bedd. Cydymdeimlir â'r mab Richard, ei merched Megan a Ruth. Mae Megan wedi gwneud ei chartref yn yr Iseldiroedd, a daeth gartref gyda'r teulu i gladdu ei mam.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Bu aelodau o Gymdeithas Lenyddol Undebol yr ardal yn dathu'r Wyl Flynyddol yng Ngwesty Gwynedd. Trefnwyd rhaglen amrywiol gyda'r aelodau yn cymryd rhan. Mwynhawyd noson ddifyr iawn.

Trefnwyd noson yn Theatr Seilo i weld y Pasiant Bagen Dinorwig gan yr ysgrifenyddion Mrs Hughes, Beech Bank a Mrs Lola Sellers, Olgra Terrace.

I GANADA – Yn ystod y pythefnos nesaf yma bydd Mrs Jan Davies (Garej yr Wyddfa gynt) nawr ar ôl

ymddeol yn Stryd y Dŵr, yn mynd draw at ei merch Jean i Quebec, Canada. Nid yw'r trip dros yr Iwerydd yn ddieithr iddi, ond mae hwn yn arbennig iawn. Y mis nesaf bydd Jean yn derbyn gradd yn y Brifysgol yn Quebec. Wrth gwrs, mae Mrs Davies yn teimlo'n eithriadol o falch. Llongyfarchwn Jean ar ei llwyddiant, a brysiwch gartre yma am sbel fach, mae pawb yn hoff o'ch croesawu – a'r ddau fab hefyd.

DYWEDDIO – Llongyfarchiadau i Heather, merch Mr a Mrs Brinley Roberts, Trigfa, 23 Stryd Goodman ar ei dyweddïad â John Gwynedd, unig fab Mr a Mrs Francis Jones, 3 Maes Padarn.

DIOLCH – Dymuna teulu Hugh R. Jones, Bodfair ddiolch i bawb am eu caredigrwydd trwy air neu weithred yn ystod eu profedigaeth. Diolchiant yn arbennig am y cyfraniadau tuag at Ymchwil yr Iau a derbyniwyd y cyfanswm o £549.22.

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:
LLANBERIS 872285
NEU 871327

CABS PADARN

FFÔN:

LLANBERIS 871347

Gwasanaeth Tacsï a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter: Hur Contract

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

DIOLCH – Dymuna Mrs Gwawr Thomas, Alwyn ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Dewi Sant ac wedi dod adref. Diolch arbennig i'r Parch W.O. Roberts am ei ffyddlondeb.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs David Wyn Saynor, 2 Bro Rhyddallt ar achlysur eu priodas. Dymunwn bob hapusrwydd i David a Heulwen.

DIOLCH – Dymuna David a Heulwen Saynor ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

CYDYMDEIMLAD – Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r canlynol: Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol ar farwolaeth ei chwaer.

Miss B. Williams, Glan Padarn a Mr Alwyn Williams, Llys Llywelyn ar farwolaeth eu brawd, Mr Goronwy Williams, Glan Padarn.

Mr a Mrs Richard Jones a'u meibion, 8 Rhos Rug ar farwolaeth brawd ac ewythr, Mr Cledwyn Jones, Deiniolen.

Mrs W.A. Jones, Y Dalar Deg ar farwolaeth ei chwaer, Mrs Megan Mair Owen, yn Falmouth, Cernyw. **CLWB BLODAU'R GRUG** – Daeth nifer dda ynghyd i'r cyfarfod ar bnawn lau, Mawrth 10.

Cydymdeimlwyd â Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol ar farwolaeth ei chwaer, a Miss B. Williams, Glan Padarn ar farwolaeth ei brawd.

Dymunwyd gwellhad buan i aelodau fu mewn ysbyty neu'n wael gartref.

Llongyfarchwyd ac anfonwyd cofion y clwb at Mr Richard Owen, 1 Rhos Rug a ddathlai ei ben-blwydd yn 94 oed.

Darllenwyd y fantolen gan y trysorydd, a diolchwyd i Mrs Parry, Morannedd sy'n gorfod rhoi'r gorau i'w swydd fel ysgrifenyddes oherwydd gwaeledd. Dymunwyd yn dda iddi. Ysgrifennydd y clwb 'nawr yw Mr Emrys Owen.

Rhoddwyd y te gan Mrs Howells, Bryn Elert, Mrs Spatt a Miss A.C. Jones, Glan Llyn, Miss Meirwen G. Roberts, Ganllwyd a Mrs Parry, Morannedd.

Diolchwyd iddynt gan Mrs Griffith, Dolanog. Enillwyd y raffl gan Mrs Edwards, Ffordd Glanffynnon. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 14.

YR YSGOL FEITHRIN – Cynhaliwyd pwyllgor o'r ysgol yn festri capel Pontrhythallt i gwblhau'r trefniadau ar gyfer y ffair wanwyn a gynhelir yn yr Ysgol Gynradd ar nos Fercher, Ebrill 20 am 7.00 p.m. Bydd amrywiaeth o stondinau a raffl ar werth ar y noson. Pris mynediad sy'n cynnwys paned a bisgedi yw 25c. Dewch yn llw i gefnogi'r ysgol. Mae dwsin o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd, derbynir hwy yn ddwy a hanner oed.

DIOLCH – Dymuna Philip a Beryl, Bryn Awen, Penygroes (gynt o Ogwen) ddiolch i'w perthnasau, cyfeillion a chymdogion am y cardiau a'r llw anrhegion ac arian a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Meleri Mair.

DIOLCH – Dymuna Hefin, Dick a'r hogia, 8 Rhos Rug ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth fawr o golli brawd ac ewythr annwyl – y diweddar Mr Cledwyn Jones, Deiniolen. Diolch hefyd am y cardiau a dderbyniwyd.

HAFAN ELAN – Nos Fawrth, Mawrth 1 cafwyd noson ddifyr iawn yn y Ganolfan i ddathlu Gŵyl Ddewi dan

arweiniad Mr Rol Williams, Waunfawr. Yn dilyn cafwyd gwledd ardderchog wedi ei threfnu gan Mrs Jones y Warden. Yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain ym mhob ystyr a diolchwyd yn gynnes iawn gan Mrs Williams, Moelwyn a Mrs H. Roberts, Tai Plastirion.

MARW – Mawrth 2 brawychwyd trigolion Hafan Elan a'r ardal gan farwolaeth Mrs Mair Iola Jones, Cilmeri. Cydymdeimlwn â'i thad, Mr Alun Rowlands a'r teulu yn eu profedigaeth.

Derbyniwyd anrheg o fwrdd coffi i'r ganolfan gan Mr Alun Rowlands, Cilmeri er cof am Mrs Nan Rowlands a Mair. Hefyd derbyniwyd bwrdd yn anrheg gan Mrs G. Jones, Rhif 7.

Yn ddiweddar mae rhai o'n cymdogion wedi bod yn wael. Rhai ohonynt wedi bod dan driniaeth lawfeddygol. Ond da ydyw deall eu bod oll erbyn hyn yn gwella.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr Michael Evans, mab y diweddar Barch R.T. Evans a Mrs Evans (gynt o'r Rheithordy) ar raddio gydag anrhydedd a chael swydd athro yng Ngholeg Gordonstoun, Yr Alban. Cyn ddisgylbion o Ysgol Brynrefail yw Michael a'i wraig Mary. Mae ei fam yn byw yn Rhosneigr, Sir Fôn.

O BATAGONIA – Bu Mrs Irma Hughes de Jones o'r Gaiman, Patagonia yn aros yn y Dalar Deg yn ddiweddar. Y mae hi'n wyres i Gwyneth Vaughan yr awdures enwog ddechrau'r ganrif, a'r Dr John Hughes, Tŷ Mawr, Clwt-y-bont. Hi ydyw golygydd 'Y Drafod' papur Cymraeg y Wladfa, ac 'roedd yn hyfryd clywed ei Chymraeg (gydag acen Sbaeneg) a fuasai'n codi cywilydd ar amryw o Gymry a fagwyd yng Nghymru. Bydd yn dychwelyd i'r Wladfa ddiwedd y mis. Y mae'n aros ar hyn o bryd yn Llansamlet gyda'i merch, Mrs Lowri Henry.

Dymuna Mrs W.A. Jones ddiolch i bawb am eu caredigrwydd wedi iddi fod am driniaeth i'w llygad yn ddiweddar, ac am bob cydymdeimlad a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Megan Mair Owen (o Ainsdale, Southport gynt) a fu farw yn Falmouth, Cernyw ar y 15fed o Fawrth. Gedy ŵr, Mr E.J. Owen a mab a merch, Beryl a Gareth. Bydd gwasanaeth ym Mhontrhythall ar Ebrill 9 am 2.00 o'r gloch cyn rhoi ei llwch ym medd ei rhieni, y diweddar Mr a Mrs Tom Jones, gynt o Dyddyn Rhuddallt.

BEDYDDIO – Pnawn Sul, Chwefror 27 yn ei chartref, Carwyn, 46 Glanffynnon, bedyddiwyd Katie Ann, merch fach Mr a Mrs Wyn Evans gan y Parch W.O. Roberts. Cynrychiolwyd Capel Mawr gan Mr J.W. Owen.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR – Dydd Gwener, Chwefror 25 cafwyd cinio Gŵyl Dewi dan nawdd y Gymdeithas. Yr oedd y lluniau wedi ei baratoi gan Mrs L. Horman a gweithwyr cegin yr Ysgol Gynradd. Y gŵr gwadd oedd Mr Rheon Thomas, Caerdydd (gynt o Gerallt). Gyda mawr siom methodd Mr Thomas a bod yn bresennol ond anfonodd rodd deilwng iawn i'r Gymdeithas a diolchwyd iddo gan y Parch W.O. Roberts, Manod. Daeth parti Carmel i'n diddori a mawr oedd yr hwyl. Diolchwyd gan Mrs E. Williams, Moelwyn a Mrs J.W. Owen.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR – Oherwydd amgylchiadau anorfod bu raid cynnal y Noson Goffi ar nos Fercher y mis yma. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs Nancy Roberts, Manod. Anfonwyd ein cofion at y chwiorydd

oedd yn methu bod gyda ni oherwydd henaint a gwaeledd a hefyd diolch i'r rhai a anfonodd arian at y gwaith er yn methu bod yn bresennol. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Jean Davies, Plas Gwyn yn cael ei chynorthwyo gan Mrs Myfi Roberts, Tai Plas Tirion. Diolchwyd iddynt gan Mrs Nansi Roberts.

CYFARFOD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD – Prynhawn ddydd Gwener, Mawrth 4 am 2 o'r gloch yn y Capel Mawr cafwyd Cyfarfod Gweddi y chwiorydd. Daeth cynulliad teilwng iawn ynghyd a chafwyd oedfa fendithiol iawn – thema'r gwasanaeth oedd 'Pobl newydd yng Nghrist' a rhoddwyd anerchiad ar y thema gan Miss Megan Humphreys, Tanycoed. Cymerwyd rhan gan chwiorydd y capeli – **Capel Mawr** – Mrs Myfi Roberts, Mrs Nansi Jones, Mrs Hughes Jones, Mrs B. Thomas, Mrs M. Evans. **Tanycoed** – Mrs J. Humphreys, Mrs K. Williams. **Pontrhythallt** – Mrs Amy Smith. **Hermon** – Mrs Jones Evans. **Bryngwyn** – Mrs T.W. Thomas.

Yr arweinydd oedd Mrs W.O. Roberts a chyfeiliwyd gan Mrs Annwen Roberts. Gwnaed casgliad teilwng at y gwaith.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi ar y 1af o Fawrth, yng Ngwesty Gwynedd Llanberis. Rhoddwyd croeso cynnes gan ein llywydd, y Parchedig W.O. Roberts, i'n gwraig wadd, sef Mrs Menna Ellis, Y Rhyl, a chafwyd ganddi anerchiad arbennig ynghyd â detholiadau o ddarnau adrodd, ddaeth â chlodd i'r ardal, yng nghyfnod Côr Adrodd y ddiweddar Mrs Morris D. Jones. Talodd deyrnged i'w hathrawon yn yr Ysgol Sul a'r ysgol ddyddiol.

Talwyd diolch iddi gan Mrs G. Griffith, Dolanog. Yn dilyn daeth Mrs Megan Roberts, Gregynog i'n difyrro â chainc ar y delyn, a diolchwyd iddi gan y PRCH Erfyl Blainey.

Penderfynwyd cael Taith Hanesyddol ar Gorffennaf i fro Ffestiniog, gyda'r Parch W.O. Roberts yn hanesydd.

Caed tymor llewyrchus i'r Gymdeithas ac edrychwn ymlaen am lwyddiant i'r tymor nesaf, gyda'r Parch Erfyl Blainey yn llywydd.

Mrs J.Ll. Williams, Bod Fair yn drysorydd a Mrs E. Wh. Thomas yn ysgrifenyddes. Diolchodd Mr Ifor Williams i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn.

MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth, Mawrth 8 yng Ngwesty Foelas cyfarfu Cangen Llanrug o Ferched y Wawr i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Daeth deugain o aelodau ynghyd. Llywyddwyd gan Mrs Ann Llwyd Jones.

Ar ddechrau'r cyfarfod llongyfarchwyd Mrs Lovatt ar enedigaeth ei hail hwyr, Kevin, yn Ontario, Canada. Ganwyd Kevin, Chwefror 22. Mab yw i ferch Mrs Lovatt (sef Catherine) a brawd i Shaun. Yno yn Ontario gyda'r teulu y mae Mrs Lovatt ar hyn o bryd.

Estynnodd y llywydd groeso cynnes i'r gwestai Mrs Olwen Jones. Testun sgwrs Mrs Jones oedd "Canu Gwerin yng Nghymru". Canwyd nifer o alawon gwerin ganddi. Diolchwyd i Mrs Olwen Jones am noson ddiddorol a difyr.

Cynhelir Ffair Wanwyn, Merched y Wawr Arfon, yng Nghaernarfon Ebrill 16. Derbynnir nwyddau i'w gwerthu yn y Ffair yng nghyfarfod nesaf o'r gangen yn yr Ysgol Gynradd, Ebrill 12.

Y wraig wadd y noson honno fydd Mrs Eira Lewis Roberts. Testun ei sgwrs fydd "Byd Geiriau".

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro



**BECWS
DEINIOLLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL – Nos lau, Mawrth 3 yn y Ganolfan bu cyfarfod ola'r tymor eleni. Fe'i dathlwyd trwy gael cyfarfod o 'Gawl a Chân' gyda chyfarfod amrywiaethol ynghlwm ag ef.

Llywyddwyd y rhan amrywiaethol gan y Ficer, y Parchedig Aled Edwards, BA. Cafwyd eitemau gan aelodau'r Gymdeithas. Cân gan Sara Woods, Fronheulog, cydganwyd amryw ganeuon. Canwyd dwy emyn gan Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, darlenniad o ddetholiad o ddramâu gan Mr Hugh Williams, Môn, Gêm 'Polo' dan ofal Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, unawd gan Mr Ifan Roberts, Tŷ'r Ysgol, deuawd Ifan a Betty. Cyfeiliwyd gan Miss Olwen Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol. Talwyd diolch i bawb a gymerodd ran gan lywydd y Gymdeithas, Mr R.H. Williams, Tŷ Capel, Dinorwig. Dewiswyd pwyllgor ar gyfer trefniadau'r tymor nesaf.

CYFARFOD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD – Cynhaliwyd cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Eglwys St Mair, Dinorwig ar Mawrth 4. Cafwyd cyfarfod hyfryd ei naws dan arweiniad Miss Ellen Wyn Jones, Tŷ'n Fawnog. Yr organydd oedd Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel M.C. Dinorwig. Rhoddwyd anerchiad ar bobl y Caribi, a siaradwyd ar y testun

PEN-BLWYDD HAPUS – Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus i Mrs Mary E. Jones, (Anti Mary), Tŷ'n Fawnog, Dinorwig ar ei phen-blwydd yn 85 mlwydd oed ar Ebrill 7 eleni. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

PENNAETH ADUAN CEMEG – Llongyfarchiadau i Mr Irfon R. Williams, B.Sc., Hafod Parc, yr Wyddgrug, ar ei benodi yn Bennaeth Adran Cemeg yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug. Ar hyn o bryd mae'n athro Cemeg yn Ysgol Alun, yr Wyddgrug. Mae'n fab i Mr a Mrs O.R. Williams, Bro Elidir, Dinorwig. Cyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail.

"Pobl newydd yng Nghrist" gan Mrs Medwen Griffith, Foel Cottage. Rhoddwyd datganiad o emyn gan Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian. Cymerwyd rhannau ychwanegol gan Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir; Mrs Megan P. Morris, Minffordd; Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch; Mrs Katie Griffith, Arwelfa; Mrs Annie Roberts, 3 Maes Eilian; Mrs Betty Roberts, 7 Maes Eilian; Mrs Irene Morris, 4 Maes Eilian a Mrs Elisabeth Jones, Foelgron. Diolchwyd i'r chwiorydd am eu cyfraniad i'r cyfarfod gan Mrs Nellie Williams, 2 Bro Elidir. Gwnaed casgliad at waith y Gymdeithas.

CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR – Yn y Ganolfan, dan nawdd y Gymdeithas uchod, cynhelir pedair darlith ar 'Hanes y Chwareli'. Yr athro yw Mr Ted Williams, Bangor. Bu'r tair cyntaf ar nos Fercher, Mawrth 9, 16 a 23. Bydd yr olaf ar nos Fercher, Mawrth 30.

LLEDU TRO PENYBWLCH – Mae trefniadau i wneud deiseb i'r Cyngor Sir gogyfer â lledu tro ffordd Pen y Bwlch, sydd yn hynod beryglus i drafnidiaeth. Os oes diddordeb gennych yn y cynllun, cysylltwch gyda'r Cyngorwyr Jacob James, Aman House, Deiniolen cyn gynted ag y gellir.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr Irfon Williams, mab ein gohebydd yn Dinorwig, ar gael ei benodi'n Bennaeth yr Adran Cemeg, Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug. (Golygydd)

PESDA ROC

Mi fydd PESDA ROC, gŵyl roc gydag oddeutu 10-15 o grwpiau gorau Cymru, yn cael ei chynnal ar faes Clwb Rygbi Bethesda, ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 2il, 1983. Mi fydd digwyddiad yn y Clwb Rygbi y noson gynt hefyd. Mae 'Pesda Roc' yn cael ei threfnu gyda chydweithrediad Clwb Rygbi Bethesda a Phwyllgor Adloniant Dyffryn Ogwen (PADOg), sydd newydd ei ffurfio.

Ynghlwm wrth PESDA ROC bydd nifer o weithgareddau eraill

Ar y gweill mae:

1) *Record sengl 11"* gan 'Maffia Mr Huws' ar label 'Pesda Roc'. Bwriedir noddi'r record drwy gynnig lle hysbysebu ar y clawr, a bydd y gwerthiant yn yswiriant rhag trafferthion ariannol i'r ŵyl.
2) *Nifer o gasetiau o grwpiau o ardal Bethesda a Bangor, fel 'Doctor', 'Maffia Mr Huws', 'Peth Gwyllt', ac yn y blaen. Maent ar hyn o bryd yn cael eu recordio yn stiwdio newydd y Felin. Byddent ar gael o fewn mis neu ddau.*

3) *Amryw o weithgareddau eraill Yn ogystal i hyn, bwriedir trefnu'r ŵyl yma yn flynyddol, fel cefn i weithgareddau eraill PADOg.*

Ers yr Hydref mae 'Maffia Mr Huws', 'Doctor', 'Yr Anrhefn', 'Y Ficar', 'Peth Gwyllt',

'Penderfyn', Tecwyn Ifan a 'Plethyn' wedi ymddangos yn y Clwb Rygbi a ffurfiwyd PADOg i sicrhau dilyniant pythefnosol o adloniant gyffelyb ym Methesda.

Os oes gennych unrhyw ddiddordeb yn yr ŵyl ei hun, yn y cynnyrch, neu nosweithiau eraill PADOg, cysylltwch â 'Pesda Roc'. Mae croeso i unhrywun hefyd gysylltu â ni am ffilmio neu recordio 'Pesda Roc' neu'r digwyddiadau eraill.

Trefnwyr 'Pesda Roc' yw: **Dafydd Rhys, Gruff Elis-Williams, Gwynfor Williams**, a'r cyfeiriad os ydych am gysylltu: **47 Ffordd Carneddi, Bethesda. Ffôn 600478.**

STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydd, llysiau
a diodydd

BARGEN


Llenwch a phostiwch y ffurflen isod er mwyn bod yn ddarlennydd cyson o CURIAD.

Fe fyddwn yn anfon dau rifyn i chwi am ddim ar yr amod eich bod yn cytuno i dalu am y 6/12 rhifyn dilynol. Caniateir i chwi ganslo'r archeb ar unrhyw adeg cyn derbyn y trydydd rhifyn ac ni fydd arnoch unrhyw ddyled i ni.

Dychweler y ffurflen hon i:

Archeb Curiad, 13 St. John's Crescent, Treganna, Caerdydd. CF5 1NX.

D.S. Cadwn yr hawl i newid y taliadau uchod yn unol â chynnydd mewn costau.



CHWE RHIFYN: £3

DEUDDEG RHIFYN: £6

Dwi'n dymuno derbyn dau rifyn o CURIAD am ddim ac yna dwi'n dymuno talu am y 6/12 rhifyn dilynol.

ENW

CYFEIRIAD

Beth am archebu CURIAD fel anrheg i gyfaill neu berthynas?

Amgeuaf siec am y swm o ar y ddealltwriaeth y medraf dderbyn fy arian yn ôl ar unrhyw adeg cyn derbyn y trydydd rhifyn pe dymunwn ganslo'r archeb.

ARWYDDWYD

PAPUR BRO
CYMRU GYFAN

CURIAD

Y PAPUR A'I FYS
AR BYLS

Angylion Pen Pendist

Sibrwd uchel: "Clyma fo'n dyn."

"Dwy'n methu."

"Pam?"

"Dim ond un llaw sy gen i, a dydw i ddim yn gweld yn iawn."

"Iwsia ddwy."

"Fedra i ddim. Rydw i'n dal y nocar hefo'r llall."

Noson dywyll fel y fagddu, a dim ond tri ohonom allan yn chwarae. Anamal roedd drygioni'n codi ben, ond roedd yn chwifio i faner y noson honno.

Llwyddais o'r diwedd i glymu'r eda ddu yn nocar No. 10. Rhedais o gysgod y ddau bendist ar draws y ffordd, dringo'r wal ac i'r weigrlodd at Harri a Dafydd Bach.

"Reit?"

"Reit." Rhoddodd Harri Blwc neu ddwy i'r eda, a daeth dwy gnoc fach ddistaw. Aros, ond neb yn ateb.

"Tria eto."

Dwy neu dair cnoc fach arall.

"Ma nhw'n dwad." Dafydd yn chwethin dan ei wynt.

"Gollwng yr eda."

Daeth Cassie i'r drws, ei gau o'i hôl, a cherdded i lawr y stryd.

"Dydio ddim yn gweithio'n iawn. Cnocia'n gletach."

"Fedra'i ddim, ac ma'r eda wedi torri rwan."

Aethom ati i chwarae "Noc Dors" y ffordd arferol. Cuddiodd Dafydd a minnau rhwng dau bendist Anti Ann, tra roedd Harri yn cnocio drws Rosy. Rheddodd atom, ac eisteddom fel llygod bach. Roedd ni'n ddigon saff yn eu cysgod, ond druan bach, ddaeth neb i'r drws eto. Ond dyfal donc a dyr y garreg.

"Tria un waith eto."

Aeth Harri'n ôl, a rhoddodd ddigon o gnoc i ddeffro'r meirw yn Nant. Ddaeth Rosy ddim i'r drws, ond fe ddaeth Harri Jôs, drws nesa, allan. Sôn am sioc. Roedd ni ofn andalu. Clywn swn ei draed yn croesi'r lôn at y wal. Cerddodd ychydig lathenni tuag atom. Arhosodd, ac yna cerddodd i lawr at waelod y stryd. Roedd y straen yn ormod i ni. Fel tair cwnigen, roedd ni'n ei heglu hi i fyny'r ffordd.

"Hei. Dowch yma, dowch yn ôl."

Dim peryg.

"Mi dalia'i chi, y cnafon bach drwg."

Dim siawns. Roedd ni i fyny wrth y tai gweigion. Arhosom nes clywed y drws yn cau tu ôl iddo. Yna, wedi sbel, aeth Harri Bach a Dafydd i'r tŷ, a sleifiais inna'n ddistaw, ar

flaenau'n nhraed heibio tŷ Harri Jôs ac adra.

"Ble wyt ti wedi bod?" gofynnodd mam.

"Dim ond yn chwarae," oedd fy ateb.

Roedd bron bob tŷ yng ngwaelod y stryd hefo dau bendist, ac roedd ni blant yn gwybod manteision bob un, ar pa un y caem lonydd i chwarae a pha un feiddiem ni gyffwrdd. Yr uchaf a'r mwyaf atyniadol oedd un cwt glo, tŷ cynta. Uchelgais pob bachgen a merch fach, oedd dringo i'w ben. Weithiau, deuai Mrs Rowlands i'r drws a'i siôl dros ei sgwyddau.

"Dowch i lawr o fanna, ne mi dorra'i coesa chi."

Geiriau bygythiol, ond doedd 'na ddim brath yn ei llais addfwyn hi. I lawr a ni, ond y munud yr âi i mewn, roedd ni i fyny yn ôl, ac ni fyddai Mr Rowlands byth yn ein hanfon i lawr. Lleoedd ardderchog oeddynt i guddio rhyngddynt, saff a chysgodol i blant bach, ac ar ddiwrnod heulog, yn fannau cynnes i dorheulo.

Doedd yr un pâr yr un fath. Ar wyneb llechen rhai, roedd hogiau wedi torri eu henwau, a gwario oriau yn tynnu lluniau, rhai ohonynt yn hynod o gywrain. Roedd 'na elfen arluniol gref ym mechgyn yr ardal, a llawer i awr ddiog a wariwyd yn cerfio llechen hefo cyllell boced. Biti na fyddai'n bosibl gwneud rhyw fath o gasgliad o'r darluniau a'r enwau yma, - "rubbings", er enghraifft. Gwn fod rhai da ar Bont Bala wedi'u colli eisoes, ac eraill wedi mynd trwy dynnu pendistiaid a phileri giatiau i lawr.

Ar nosweithiau o haf, deuai cerrig y drws i'w gwir rym. Wedi hen flino, byddem ni blant, yn ein gwres a'n chwys yn eistedd i lawr ar y rhai mwyaf croesawgar, lle fel arfer y byddai pobl mewn oed eisoes wedi setlo. Pwysent yn erbyn y pendist, a rhoi eu dau benlin ar ei ben. Dringai un neu ddau ohonom ninnau i eistedd wrth eu hochr.

"Ydach chi wedi blino, blant?"

"Ydyn. Ew ma hi'n boeth."

"Gwyliwch nag ydy'r garreg las na'n rhy oer. Fe gewch chi annwyd."



Yna heb fwy o sylw ohonom, a'r sgwrs ymlaen. Roeddem wedi'n derbyn i'r cwmni, a hawl i wrando, ac ar adegau, hyd yn oed i ddweud gair bach, ond ddim i dorri ar draws neb.

"Mae menynd wedi mynd i fyny ddim arall yn y Coparet. Does dim rheswm."

"Faint ydy o yn y Star?"

"Naw ceiniog ydy menynd New Zealand. Well gin i fenyn Sir Fôn."

"Glywis i bora 'ma fod nhw'n mynd i ledi Lôn Bost a Phont Huws Drygist."

"Mae hi'n hen bryd. Roedd 'na 'nagos i gant o geir yn y parcin yn Stesion Wyddfa ddod. Mae hi'n beryg bywyd mynd lawr i pentra."

"Ia. Roedd na bum cant o bobl yn dod oddi ar sgysion Llandudno ddod a phum cant arall ar trên Rhyl, a phob un yn mynd i fyny Wyddfa."

"O'n i'n sbio arnyn nhw'n mynd heibio Pen Ceunant am Hebron, fel un 'cnebrwng mawr."

"Roedd Robat John yn deud fod nhw'n mynd i fildio hotel newydd ar y top."

A'r sgwrsio ymlaen a ninnau blant yn araf ddistewi ym murmur y lleisiau. O un i un, galwai'r mamau ni i fynd i'r gwely. Byddwn yn gorwedd yn y ciando, a ffenast y llofft yn llydan agored. Codai sisial y siarad yn gysglyd i'm clyw. Torrai ambell i "Nos Dawch", ar rediad y sgwrsio. Swn traed yn troi yng ngwaelod y stryd. Roeddwn i'n nabod cerddediad pawb bron.

Disgynnai distawrwydd hefo'r gwyll.

Roedd Llainwen wedi noswyllo. Dim ond ambell i gath oedd yn blasu esmwythder llyfn y pendistiaid.

GORONWY OWEN

DRAENOG

Pobl fudur yn Llanrug, medda nhw. Biniau sbwriel wedi eu gosod ar ochrau'r ffordd hyd y pentra. Sustem newydd mae'n rhaid, oherwydd mae mor anobeithiol cael mwy nag un bag plastig du gan ddynion y lori sbwriel. "Biniau i bawb o bobl y Rug!"

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

PENSIYNAU YSWIRIANT MORGAIS

Gwasanaeth newydd i bobl y fro
Robert Jones a'r Cwmni
Ymgynghorwyr Yswiriant a Morgais
SIOP ISAF, 7 HEOL-Y-DŴR,
PENYGROES
Ffôn: 880027 (24 awr)

Codwch y ffôn heddiw am bris
Mae gennym Gynlluniau Pensiwn, Bywydau,
Yswiriant Eiddo, Adeiladau, Cyfrifoldebau Ceir etc. ar
gyfer pawb

ASiantaeth Leol Cymdeithas Adeiladu'r Halifax

06190 – O CHWECH I NAW DEG!



**Tudalen i'r
plant: hen
ac ifanc
gan
DYFRIN
Y
DEWIN**

PLE BUOST TI NEITHIWR, FAB ANNWYL DY FAM?

PENNOD 3

Oddi tano, gorweddaï Gareth, ac wrth ei cohwr yn ysgyryngu roedd y cipar. Ymhellach i ffwrdd roedd potsiar arall yn eistedd a gwên faleisus ar ei wyneb. Er hynny, fe aeth a thynnu'r cadach oedd am geg y cipar.

"Fe gewch chi dalu am hyn, y cnafon," meddai'r cipar. "Rydw i wedi cael golwg ddigon da ar y tri ohonoch chi i'ch nabod chi eto yn unrhyw le ..."

"Ho, ho!" chwarddodd y potsiar mewn llais bas caled. "A phwy sy'n mynd i'th goelio di? Cael dy gadw'n garcharor mewn hen felin? A hynny gan botsiar? Hy! Fe fydd pawb yn meddwl dy fod yn myndo'th go."

"Mae'n amlwg dy fod di o'th go'n barod, 'nôl fel rwyd ti'n ymddwyn," heriodd y cipar.

"Cau dy geg, y corgi, ne' mi'th ..." Cododd y potsiar a nesu'n fygythiol at y cipar gan gynnig cic iddo.

Sylweddolodd Sam fod y potsiar yn union oddi tano, a gwelodd ei gyfle. Gollyngodd y sach trwm ar ben y potsiar nes bod hwnnw'n llyfu'r llawr, a Gareth a'r cipar yn edrych yn hurt ar yr hyn ddigwyddodd. Neidiodd Sam i lawr o'r llofft, a chyn pen chwinciad, roedd o wedi clymu'r potsiar, ei draed a'i ddwylo, er nad oedd agnen hynny, gan fod y truan hwnnw

ym myd y cysgodion er pan ddisgynnodd y sach ar ei ben.

Cafodd Sam gryn drafferth i ddatod rhwymau Gareth a'r cipar, ond o'redd, llwyddodd; ac mor falch oedd y ddau o gael ystwytho'u cymalau.

"Ond, hogiau, rhaid i ni beidio ag anghofio'r ddau arall chwaith!" meddai'r cipar. "Chwiliwch am erfyn go handi, ac mi awn ni allan ar eu holau nhw."

Wedi dod o hyd i dri bar haearn gweddol drwchus, cychwynnodd y tri am y drws, ond cyn iddyn nhw gamu allan, daeth sŵn frwydrad.

"Rhy hwyr," meddai'r cipar, a bu distawrwydd am ennyd fel pe bai'r tri'n meddwl am y difrod a wnaed yng ngwely'r afon. "Waeth i ni aros yma i'w disgwyl yn ôl ddim rŵan," meddai'r cipar. "Chwiliwch am rywle i guddio. Pan ddaw'r ddau i mewn, mi wyddoch be i wneud."

Bu'r tri yn disgwyl yn eiddgar, ond doedd 'na siw na miw o'r ddau hotsiar, ac ar ôl disgwyl am tua hanner awr, penderfynodd y cipar mai'r peth gorau fyddai mynd i chwilio amdanyn nhw. Wedi sicrhau na allai'r llall ddianc, a gwthio hances boced i'w geg fel na allai weiddi am help, fe aeth y tri allan i'r nos.

Buan y daethon nhw at lan yr afon, ac roedd golygfa annisgwyl yn eu haros. Ar lawr y graean mân ar lan yr afon, gorweddaï'r ddau botsiar arall. Roedd un yn griddfan mewn poen, a'r llall yn hollol ddiymadferth a bron yn hanner marw.

"Amaturiaid," meddai'r cipar. "Eu ffrwydro'u hunain yn lle'r pysgod!"

Syllai'r ddau fachgen mewn syndod ar yr olygfa.

"Wel, hogia, mi gymera i ofal o bethau bellach. Gwell i chi fynd adre i newid o'r dillad gwlyb yna ... a hogiau, anghofiwch am y mater bach yna yn Llyn Felin!"

"Whiw, diolch yn fawr,"

meddai Gareth mewn gollyngdod.

"Ie, wir, diolch i chi," ategodd Sam. "Gwell i ni ei throï hi am adre rŵan."

Pan gyrhaeddodd Gareth adref, roedd o wedi blino gormod i ddringo'n ôl i'w stafell wely; felly, cnociodd ar y drws cefn nes dychryn ei dad a'i fam. Ei fam ddaeth i agor y drws, a daeth golwg syn ryfeddol dros ei hwyneb pan welodd ei mab yn sefyll y tu allan yn wlyb diferol.

"Ble ar wyneb y ddaear rwyd ti wedi bod? Y fath olwg ..."

"Pysgota," meddai Gareth yn ddigon swta, ac aeth drwodd i'r stafell molchi i newid ei ddillad.

AFONYDD CYMRU

N	G	L	A	S	L	Y	N	I	C	E	G	I	N
Y	W	N	R	Y	F	U	A	D	E	L	C	U	Ch
D	Y	W	L	C	O	Th	I	I	F	W	A	L	A
O	R	U	D	N	O	H	T	R	N	Y	W	Y	C
D	F	H	I	R	P	N	A	Y	I	F	I	E	T
U	A	A	A	L	O	G	W	E	N	T	Y	W	I
D	I	D	Y	F	I	D	E	Y	W	G	U	L	G
R	G	M	N	N	R	W	T	T	Y	R	H	E	R
O	D	W	A	F	E	E	G	N	O	I	N	W	D
S	G	S	Y	W	A	D	N	O	R	H	S	O	Ch
Y	R	D	E	L	D	Y	T	I	Y	E	N	W	W
R	D	N	O	R	E	A	W	E	M	R	Y	L	Y
P	R	D	W	Y	F	A	Ch	S	N	Ch	C	I	L
Th	Y	W	T	S	Y	L	O	D	I	E	R	H	W

Mae 47 o afonydd Cymru wedi eu cuddio yn y sgwâr uchod. Fedrwch chwï eu darganfod.

Dudodyn, Clywedog, Prysor, Erch, Lliw, Dâr, Cywyn, Cuch, Soch, Rheidol, Ystwyth, Cegin, Cynon, Honddu, Alaw, Dyfrdwy, Hafren, Conwy, Tawe, Rhondda, Wysg, Mawddach, Seiont, Wnion, Ogwen, Clwyd, Dwyfach, Gwy, Gwyrfaï, Glaslyn, Llugwy, Llyfni, Cothi, Tywi, Teifi, Nêdd, Tâf, Fyrnwy, Dyfi, Aeron, Cefni, Cleddau, Gwili, Elwy, Lledr, Llwchwr, Rhymni.

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



**Gwesty'r
Foelas**

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

GWASANAETH

TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd
Ffordd
Glanmoelyn
Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**

DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

Dysgu Ar Droed

LLYFRYN diddorol a ddaeth i law yn ddiweddar yw *Public Footpaths — a natural teaching resource*, a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Cerddwyr (Ramblers Association) ac a noddwyd gan y TSB. Mae'n llyfryn hwylus ar gyfer athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd neu i unrhyw un sydd â diddordeb mewn crwydro llwybrau ei ardal ac eisiau mwy o wybodaeth ynglŷn â hwy.

Mae dros 120,000 o filltiroedd o lwybrau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, neu ddwy filltir o lwybrau ar gyfer pob milltir sgwâr o dir ar gyfartaledd. Hynny yw, mae llwybr cyhoeddus o fewn cyrraedd hwylus i bob unigolyn.

Mae'r llyfryn yn rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i ddarganfod pa lwybrau sy'n gyhoeddus, a phle'n union y mae eu lleoliad. Mae'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r gwahanol fapiau O.S. sydd ar gael, gan gynnwys y cyfresi diweddaraf sy'n dangos terfynau caeau, ac felly'n ei gwneud yn haws i ddilyn llwybr. Nodir hefyd gyfrifoldebau'r Awdurdodau Priffyrdd a thirfeddianwyr ynglŷn â chadw llwybrau'n glir o rwystrau; o farcio lleoliad a chyfeiriad llwybrau, ac o godi a thrwsio camfeydd. Rhofr gwybodaeth ynglŷn â'r dulliau cyfansoddiadol o gau llwybrau cyhoeddus ac o agor rhai o'r newydd.

Un o argymhellion y llyfryn yw y dylid defnyddio llwybrau cyhoeddus ar gyfer teithiau cerdded nodedig. Mae llwybrau'n llawer diogelach na phriffyrdd, ac yn llawer mwy diddorol i'w cerdded. Rhofr rheolau pendant a chanllawiau clir ynglŷn â threfnu teithiau o'r fath.

Mae ail ran y llyfryn yn rhoi

disgrifiad cynhwysfawr ac enghreifftiau o'r modd y gellir defnyddio llwybrau cyhoeddus i amcanion addysgol — gan ysgolion cynradd ac uwchradd mewn pynciau amrywiol, gan gynnwys daearyddiaeth, hanes, natur, astudiaethau'r amgylchfyd, iaith, a hyd yn oed fathemateg. Mae hefyd wybodaeth ynglŷn â gwaith ymarferol fel glanhau a chlirio llwybrau, gosod arwyddion a mynegbyst ar lwybrau, ac ysgrifennu arweinyddiaethau syml i roi llwybrau o ddiddordeb arbennig.

'NABOD ARDAL

Bu cryn ddiddordeb yn yr erthyglau "Crwydro Llwybrau" a gyhoeddwyd yn yr *Eco* beth amser yn ôl. Tybed a fyddai digon o ddiddordeb i gynnal taith gerdded "I Nabod Ardau" o amgylch Bro'r Eco rywddro yn ystod y misoedd nesaf?

Efallai y byddai cyfle i deuluoedd gyd-gerdded a dod i adnabod y fro drwy ei cherdded. Efallai hefyd y gellid trefnu i gael bwyd ar y ffordd a gwneud 'diwrnod i'r brenin' ohoni. Os oes rhywrai â diddordeb cysylltwch â'r Golygydd Erthyglau fel y gellir mynd ati rhagblaen i drefnu taith. Chi biau'r dewis!

O BANTRI BETH



DANTEITHION Y PASG

Torth Gnau a Lemwn:

- (1) 4 owns margarin
- 5 owns siwgr (curwch nhw gyda'i gilydd)
- (2) Curo dau ŵy a chwarter peint o lefrith a'i ychwanegu i (1).
- (3) Curo 8 owns o flawd codi

croen un lemon wedi ei ratio
2 owns o gnau (walnuts) i mewn i (1) a (2)

Craswch y dorth mewn popty isel, nwy 2 am awr a chwarter i awr a hanner.

SEIGIAU SAIGON

- 3 owns blawd codi
- 1 llwy de o bowdwr codi
- 4 owns datys wedi malu
- 4 owns o gnau ffrengig wedi malu (walnuts)
- 7 owns siwgr
- pinsied o halen
- 3 wy wedi'u curo'n dda

Rhows y cynhwysion sych drwy ogr, ac wedyn ychwanegu gweddill y cynhwysion.

Rhowch y cymysgedd mewn tun 'swiss roll' wedi'i iro'n dda.

Rhowch mewn popty isel 500' am 30 munud.

Torrwch i fysedd a'u rholio mewn siwgr castor tra'n boeth. Blasus iawn!

Y COBLER DU BACH

MAE gofal am iechyd y plant yn bryder i rieni ymhob oes, yn enwedig felly os bydd yr arian yn brin a'r gwaith yn ansefydlog. Cyfnod felly oedd yn dilyn y Rhyfel Mawr yn nauddegau'r ganrif hon. Câl plant eu siarsio i warchod cyflwr eu hesgidiau a'u clocsiâu. Roeddem yn ffodus yn Llanrug o gael cryddion gweithgar a diwyd.

Ar dir Hafod Garegog, ar safle y modurdy heddiw, roedd yno gaban coch tywyll o goed a tho sinc iddo, — gweithdy Rolant y Crydd — Rowland Roberts o'r Groeslon, Waunfawr.

Dyn byr o gorff, pryd tywyll, moel ei gorun oedd Rolant, gyda dau lygad treiddgar a phwt o fwstas brith ac aeliau trwchus. Cerddai bob dydd dros y Ceunant at ei orchwyl yn ei flwch o weithdy ar gŵr y lôn bost. Dylwn ddweud mai ar ddydd Llun yn unig y byddai'r shutters i fyny, gan mai 'Dydd Llun Cryddion' y gelwid hwnnw pan gai y crefftwr gyfle i fynd ynghylch y defnyddiau at ei waith yn siop y Cwrier, yn Skinner Street a chael hoe fach yn y dre'r un pryd. Cludid rhôl o ledr trwm at wadnu a sodlu, hoelion, sbarblis at esgidiau gwaith, clemiau a phedolau ar fws D.M. o'r Maes fore trannoeth.

Gellid gweld Rolant yn eistedd ar stôl bren uchel wrth ei fainc o flaen y ffenestr, yn gwisgo ffedog ledr ddu o'i flaen, maneg ledr am gledr y llaw dde pan fyddai pwytho ar dro. Gwisgai grys gwlanen streip, tew a choler India rybar wrth stydsen flaen ac ôl. Ni fyddai angen golchi honno gan y gwnâi cadach gwlyb y tro.

Ar dro byddai'n rhaid galw yno i gael clwt ledr ar drwyn esgid, pedol ar sawdl neu glem ar y blaen a sbarblis ar wadn i arbed traul. Pryd hynny cawn wyllo y crydd wrth ei waith a sgwrsio 'run pryd, er mai gŵr go dawedog oedd Rolant. Yn ateb i unrhyw ymholiad busneslyd o'm heiddo, rhyw ebwch a gawn gan y crydd.

Sylwais droeon ar ddwylo garw'r crefftwr, yr ewinedd cadarn a fu'n gwasgu a thrin y ledr i'w addasu at y gwaith. Anodd fyddai credu ei fod yn gyfeilydd dawnus ar y piano. Ni chlywais ef erioed, ond deallaf ei fod yn gerddor dygn a'r cyntaf o'r Waun i ennill anrhydedd yr L.C.M.

Wrth wadnu esgid torrai'r ledr i ffurf y wadn a'i sgeifio â chyllell lem. Yna trochai ef mewn padell ddŵr. Rôl mwydo sbel curai ef ar y garreg-arffed i'w bantio fel y gorweddai'n glôs ar yr esgid. Rhyfeddwn o'i weld yn cymryd cegaid o hoelion bach melyn a'u curo fesul un gyda hen ffeil, neu forthwyl trwyn fflat, i sicrhau y wadn newydd yn ei lle. Wedi sgathru ei hymyl



gyda'r rathell, toddai gŵyr du yn y gannwyll wêr a'i daenu hyd ymyl y wadn i roi sglein ddu iddi.

Rôl gorffen y gwadnu a'r sodlu, taflai'r esgid at bentwr parod yn y gornel. Ceid pâr o esgidiau wedi eu gwadnu a'u sodlu am swllt a chwe cheiniog, gwadnu am hanner coron a swllt am sodlu yn unig.

Arferai ddanfôn yr esgidiau i'r tai ar ei ffordd adref i'r Waun ar nos Wener, neu bnawn Sadwrn. Gwelid ef yn dod gyda'i het ddu galed ar flaen ei dalcen, fel pe cysgodai ei olwg yn well. Cludai god ddu ar ei wâr yn llawn o esgidiau. Gwyddem yn eithaf na allai ddod adref ar nos Wener heibio Glyntwrog heb alw yno a phur ansicr fyddai ei osgo weddill y daith. Wrth ei gyfarch fel Rolant Robaits caem yr un ateb bob tro, "Wel, s'mai?" Os mai tawedog fyddai, gellid casglu y byddai angen ei holl sylw arno wrth dorri llwybr union tuag adref.

Pery cof gwlad am y Crydd Bach o'r Waun yn hir. Gwrthododd grymu i ymhel â pheiriannau at ei waith. Gwnâi popeth â'i ddwylo, gan lathru ei wadnau a sodlau newydd â choes ei forthwyl i'w gorffen cystal ag unrhyw ffatri heddiw.

Gwelir Rolant Robaits yn y llun ar agor drws ei weithdy â'r sgrepn wag ar ei ysgwydd.

R.W.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)



GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
— ALLWCH CHI Fforddio prynu o batrymau?

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

Y WRAIG O IS-EILIAN

Sgwrs rhwng Y Parchedig Idris Thomas, Trefor a Miss Catherine Elizabeth Williams, Llys Eilian, Waunfawr.

Personiaid

Syfrdanir dyn yn aml gan garedigrwydd mawr llawer o bobl y plwyfi. Derbynias garedigrwydd mawr pan yn gurad yn gofalu am Waunfawr yn 'Is Eilian' a dod i sylweddoli fod dau offeiriad y plwyf rhwng 1926 a 1971 wedi lletya yno tra'n gwasanaethu yn Waunfawr a Betws Garmon. Doedd dim rhyfedd i 'Is Eilian' gael ei alw yn 'Vicarage' gan drigolion yr ardal ac yn wir dyna yw hyd heddiw i lawer a gofia am y ddau offeiriad o hen lanciau a letyai yno. Un a adwaenai'r ddau yn dda ac a fu am flynyddoedd lawer yn gwasanaethu'r Eglwys yn y Waunfawr yw Miss Catherine Elizabeth Williams, Is-Eilian.

Y Teulu

Ganed Miss Williams yn Uwch-Peblog, Waunfawr ar Awst 3ydd, 1900, yn ferch i David Benjamin a Jane Ann Williams. Roedd ganddi ddau frawd sef John Benjamin Williams a Griffith Jones Williams. Capelwyr oedd y rhieni yn addoli yng Nghapel Croes y Waun. Bu farw un o'i brodyr sef John Benjamin yn 1977 a bu'n Warden yn y plwyf am ddeugain mlynedd gan fod yn glochyd hefyd am gyfnod. Bu'n gweithio yn swyddfeidd y dreth incwm ym Mangor, Llandudno a Lerpwl. Mae Griffith Williams a'i briod yn byw yn Morfa, Waunfawr heddiw, ac yn glochyd yr Eglwys. Yn trigo yn Is-Eilian ers dros ddeng mlynedd ar hugain y mae Miss Irene Carr, ffrind i'r teulu sy'n enedigol o swydd Efrog. Yn anffodus cafodd Miss Williams ddamwain i'w choes yn 17 oed gan ei gwneud yn anabl i weithio a bu'n dioddef o'r ddamwain weddill ei hoed. Yn 1928 derbyniodd Fedydd Esgob ac o'r adeg yma ymlaen bu'n amlwg ym mywyd yr Eglwys a'r Plwyf.

Fel Tad

Roedd Catherine Elizabeth Williams yn ffrindiau â theulu Ficer y Plwyf, y Parch R. Arthur Williams (Berw) a phan fu farw yn 1926 penodwyd y Parch Hugh Hughes yn yr un flynydd yn ofal y Plwyf. Roedd ei mam wedi hen arfer â lletya nyrsus ac athrawon yn Is-Eilian a daeth Wardeiniaid y plwyf sef y Mri W. W. Humphreys a H. W. Owen ati gyda chais i ystyried cymryd Mr Hughes yno. Roedd pedwar o dai wedi eu cynnig fel lleoedd addas i'r Ficer aros ond Is-Eilian a ddewiswyd a lletyodd y Parch Hugh Hughes yno am gyfnod o 32 o flynyddoedd. Nefus iawn oedd y teulu yn 1926 i gael Ficer yn y tŷ; rhoddwyd ystafell ar wahân iddo lle y gallai dderbyn ymwelwyr ond roedd yn byw hefo'r teulu. Dywed Miss Williams ei fod wedi bod fel tad i'r teulu; yn hynod garedig, yn hwyliog, yn ŵr darllengar ac yn ymwelydd da. Bu'r Parch Hugh Hughes yn gwasanaethu'r ardal fel Cynghorydd cydwylbodol a gweithgar ac ef oedd yn gyfrifol am gael ffordd gymwys o Gaeathro i'r Waunfawr; bu'n gymorth mawr i fechgyn oedd am fynd ymlaen ym myd addysg. Beic modur ddefnyddiai ar y cychwyn i fynd o gwmpas cyn iddo gael car. Tra roedd ar y Cyngor y gwelwyd yr enw 'Is-Eilian Vicarage' ar fynegbost y tŷ am y tro cyntaf. Bu farw mam Miss Williams yn 1952.

Fel brawd

Bu farw'r Parch Hugh Hughes yn 1958 a daeth hen lanc arall o Offeiriad i aros yn Is-Eilian yn 1959 sef y diweddar Daniel Nicholson. "Os oedd Mr Hughes fel tad i'r teulu roedd Mr Nicholson fel 'brawd' medd Miss Williams. Roedd yn ŵr cellweirus a difyr ond ym



mlynnyddoedd olaf ei fywyd llesgwyd ef â gwaeledd. Bu farw yn 1971 a daeth cyfnod o letya Offeiriad i ben yn Is-Eilian ar ôl 45 o flynyddoedd. Yn 1971 daeth y plwyf yn rhan o blwyf Rheithorol Caernarfon gyda'r Rheithor, Y Ficer a'r curad yn byw yn y dref. Ers ffurfio'r Plwyf Rheithorol bu Miss Williams yn Warden am flynyddyn yn 1974 ym Metws Garmon.

Ddoe a Heddiw

Mynychu'r Eglwys a wna heddiw yn ffyddlon bob Sul er iddi dorri ei chlun yn 1980 a threulio cyfnod mewn ysbyty; hi bellach yw trysorydd yr Eglwys. Wrth edrych yn ôl gwel newidiadau mawr. Trisáu a wna nad yw'r ifanc yn dod i'r Eglwys i a gofidia nad oes ffyddlondeb mewn mynychu lle addoliad fel y bu. Llawenha ei bod wedi bod yn gysylltiedig â chodi Ystafell yr Eglwys nepell o Is-Eilian. Prynodd yr Eglwys y tir, a chasglu'r arian, ac ym mis Tachwedd 1934 agorwyd yr Ystafell gan ddod a defnydd mawr i'r ardal gydol y blynyddoedd gan i lu o weithgareddau ddigwydd yno. Daeth llawer o ddiethriaid i ardal y Waun bellach, fel i amryw o bentrefi Arfon, a thristáu a wna wrth feddwl nad oes Ficer, Gweinidog nag Ysgolfeistr yn byw yn y Waunfawr heddiw. Ond er hynny mae'n hapus gyda threfniant y Plwyf Rheithorol. Daeth 1980, blwyddyn Canmlwyddiant Eglwys St. Ioan, â phleser mawr iddi. Gwelodd gydweithio da rhwng yr enwadau yn Waunfawr gydol y blynyddoedd gyda phawb yn helpu ei gilydd a theimla fel yr â y blynyddoedd heibio fod angen i bawb ddod at ei gilydd yn amlach. Cytuna â geiriau'r Canon R. Glyndwr Williams, a roes ddegawd gweithgar i'r plwyf, yn y llyfr Canmlwyddiant - "Synnwn i fawr na fedrwn cyn bc hir yn Waunfawr, yn gapelwyr ac eglwyswyr, rannu'r un weinidogaeth a chyd-addoli'n gyson. Nid dilorni'n hetifeddiaeth a fyddai hynny ond cyfrannu i'n gilydd a derbyn oddi wrth ein gilydd y pethau

WAUNFAWR

Gohebydd : Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626).

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror nos lau, Chwefror 24 yn Neuadd yr Eglwys. Daeth aelodau'r gangen ynghyd â'r dysgwyr Cymraeg i ddawnsio gwerin o dan ofal Mr Len Jones, Penisarwaun. Mrs Gweneirys Jones oedd yn llywyddu ar y noson, ac fe estynnodd groeso cynnes iddynt. Ymunodd pawb yn yr hwyl, ac ar ddiwedd y noson 'roedd pawb yn teimlo eu bod yn haeddu paned o de a wnaethpwyd gan Iona Williams ac Ann Elfryn. Estynnodd y gangen eu dymuniadau gorau am wellhad buan i Greta Hughes, Tref Eilian a Mrs Hughes, Llys Meredydd. Rhoddwyd y diolchiadau gan Llinos Cadwaladr.

Enillwyd y raffl (a roddwyd gan Iona Williams) gan Mrs C. Jones, Brynderwen.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, Ebrill 28 yn Neuadd yr Eglwys, pan ddaw cangen Llandwrog i gystadlu mewn cwis dan ofal Mr John O. Huws, Caernarfon.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth o'r Sefydliad yn Ffestri Croesywaun. Nos lau, Mawrth 3 gyda Mrs Catherine Jones yn y gadair.

Croesawodd Mrs Jones yr aelodau i gyfarfod dathlu Gŵyl Dewi.

Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf a'u trafod. Cynhelir bwrdd gwerthiant yn y cyfarfod nesaf.

Cafwyd sgwrs ddiddorol gan y wraig wadd, Mrs Morgan Jones, Pant Cae Haidd ar rai o lyfrau Gwasg Gregynog. Diolchodd Mrs Pat Parry iddi. I ddathlu Gŵyl Dewi cafwyd swper wedi ei ddarparu gan rhai o aelodau'r pwyllgor. Diolchodd Mrs Parry Williams iddynt ar ran yr aelodau. Enillodd Mrs Betty Griffith y raffl a roddwyd gan Mrs Mary Davies. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, Ebrill 7 pan fydd rhai o aelodau o Sefydliadau Bethel a Brynrefail yn ymuno â'r aelodau.

CLWB GWYRFAI - Ar Fawrth 17 cynhaliwyd bore coffi yn Neuadd yr Eglwys, yr elw o £40 yn mynd at Ganolfan yr ardal. Enillwyd y raffl oedd Mrs Roberts, Gors Goch, Miss Williams, Is Eilian a Mrs Marsden, Blaen y Nant. Talwyd y diolchiadau gan y Ficer, y Parch E. Trefor Jones.

Bydd y clwb yn cynnal ei ffair wanwyn flynyddol ar nos Wener, Ebrill 29, gyda phob math o stondinau. Bydd y pwyllgor yn ddiolchgar iawn o dderbyn unrhyw nwyddau ar gyfer y noson. Croeso i bawb.

YR URDD - Mae'r plant wedi gwneud yn arbennig o dda eto eleni yn yr Eisteddfod Gylch, a gynhaliwyd ar Fawrth 5 yng Nghaernarfon. Dyma'r canlyniadau:

Karen Roberts: (3ydd, unawd piano dan 12 oed); Kevin Tame (1af, unawd cornet); Nan Wyn (2il, cân werin); Elli Haf (3ydd, unawd cerdd dant); Iwan Ellis (1af, unawd fflwt ac unawd i fechgyn); Parti Cerdd Dant (1af); Partion Recorders dan 12 oed a than 15 oed: (1af); Parti unsain dan 12 oed (1af); Côr adrodd, merched (3ydd); Côr adrodd bechgyn (4ydd).

Llongyfarchiadau iddynt i gyd, yn enwedig i'r parti recorders dan 15 oed ac i Anthony Marston ar y basŵn, am ddod yn gyntaf yn yr Eisteddfod Sir i blant 12-15 oed, ac felly yn cael cystadlu yn yr Eisteddfod

yng Nghrist sy fwyaf gwerthfawr yn ein golwg."

Chwaraeodd Catherine Elizabeth Williams ran amlwg ym mywyd Eglwys a Phlwy Waunfawr yn ystod rhan helaeth o'r ganrif hon a diolchir i'r wraig o Is-Eilian am ei chyfraniad mawr ac amrywiol.

Genedlaethol. A phob lwc i'r plant fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir i blant dan 12 oed ym Mangor Mawrth 26.

Bydd tymor yr Urdd yn dod i ben gyda gwyliau'r Pasg. Y cyfarfod olaf am y tymor fydd ymweliad â'r pwll nofio.

YR YSGOL - Daeth aelodau Clwb Gwyrfa i'r ysgol eto eleni i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda'r plant. Rhoddwyd cyngerdd i'r aelodau, gyda phob dosbarth yn cyfrannu eitemau. Yna, gyda help parod staff y gegin, paratowyd te iddynt. Rhieni plant Safon 4 oedd yn gyfrifol am roddi'r danteithion. Talwyd diolchiadau i'r plant a'r athrawon gan y Dr R.S. Williams, Cadeirydd y Rheolwyr a chan y Dr A.L. Miles ar ran Clwb Gwyrfa.

CLWB 100 - Dyma'r enillwyr am fis Mawrth: 1. Iris Jones, Tŷ Capel, 2. Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed, 3. Dic Jones, Llwyn Onn.

LLONGYFARCHIADAU - i Elfyn a Menna, Melwyn ar enedigaeth mab, Aled Wyn, brawd i Rhian; ac i Malcolm Roberts, 9 Bryn Golau ar ennill gwobr gyda'i gi 'Snowdonia Lady' mewn sioe yn Gloucester.

CYDYMDEIMLWN - â rhai o'r pentref yn eu profedigaethau, sef Mr Richard Rowlands, Bryn Golau ar golli ei frawd; Mrs Joan Buckley, Midsummer's Eve, ar golli mam; a theulu'r ddiweddar Miss Judson.

Drwg oedd clywed fod Miss Gwladys Lewis, Ardref wedi syrthio yn yr ardd a thorri ei braich. Cydymdeimlwn â hithau hefyd.

YN YR YSBYTY - mae Mr Goronwy Jones, Treflys unwaith eto. Anfonwn ein cofion gorau ato a Mr Chadwick, Tan y Coed, sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Eryri. Dymuniadau gorau am lwyr wellhad buan i'r ddau ohonynt, ac hefyd i Mr Ifan Owen, y Becws sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn Birkenhead.

ADREF O'R YSBYTY - Gobeithiwn fod Mrs Evelyn Anderson, Bodarfon, Mr Owen Williams, Gwynfa a Mr Hugh Williams, Heli yn gwella ar ôl eu harhosiad yn yr ysbyty. Croeso gartref iddynt.

DR BARNARDO - Mae'r trefnydd yn ddiolchgar am bob cefnogaeth. Casglwyd £43.56.

YR URDD

Llongyfarchiadau i blant yr Urdd. Daeth y parti Cerdd Dant yn ail a'r Parti Unsain yn gyntaf mewn dwy gystadleuaeth o safon uchel iawn yn yr Eisteddfod Sir.

O ganlyniad i hyn bydd yn rhaid inni godi arian i helpu plant y parti unsain i fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Aberafan.

Wil a Val Guy TREFLYN STORES BETHEL

Ffôn: Y Felinheli
670237

Stoc helaeth o ddillad plant

Legwarmers (£1.70)


Anklewarmers (95c)

Snwcer - sialc, tips

Ciws Riley - a byrddau hefyd os dymunwch

Teganau, Diodydd, Melysion,
Bwydydd a Dafedd

CROESAIR EBRILL



AR DRAWS:

1. Fframwaith corff (7)
5. Ymwelwyr â Llanfairyllin (5)
8. Drama gerddorol (5)
9. Yn dy wedd, Iona, mae ymrwymiad (7)
10. Cymdeithas y Cenhedloedd Prydeinig (9)
12. Ddywedodd hon ddim byd wrth Wil (3)
13. Ystafell beth yw yr Eco (6)
14. Rhaid cropian cyn gwneud hyn (6)
17. - Bevan (4)
18. Haeddiant (9)
20. Ofni'n fawr. Dos â'r wy wedi'i gymysgu (7)
21. Mae un gan bawb, a dau gan rai (5)
23. Y cyflwr o fod heb gyfoeth (5)
24. Don a gar yn cynllunio i broffwydo (7)

I LAWR:

1. Heini (5)
2. Meddai (3)
3. Un o'r wyth mewn tîm rygbi (7)
4. Trefnu, gwahanu (6)
5. Anifeiliaid sy'n chwarae rygbi? (5)
6. Dilyn a dal (9)
7. Ddim eisiau gweithio (7)
11. Gweld cyfle i elwa, a siomi Neta rhywsut (9)

13. Eglur, fel blaen rhywbeth mewn ceg! (7)
15. Pantycelyn, Eben Fardd er enghraifft (7)
16. Yn unig (3,3)
18. Ponciau tywod yr arfordir (5)
19. Heb ben? Na, pwrpas! (5)
22. Gwrth ddywediad (3)

Un llythyren ydi ch, d, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Anfonwch eich cynigion i: **Twrog taes, 23 Glanffynnon, Llanrug.** Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

Atebion croesair Mawrth

AR DRAWS:

1. Tlawd. 5. Gofid. 7. Arwyr. 8. Iraid. 9. Anwar. 10. Edliw. 11. Las. 13. Isafswm. 16. Dor. 17. Lot. 19. Ochenaid. 24. Eli. 25. Chwain. 26. Amryw. 27. Arlliw. 28. Ymlid. 29. Telyn. 30. Lawnt.

I LAWR:

1. Teimlad. 2. Anamserol. 3. Dadeni. 4. Gwalia. 5. Grawys. 6. Dirwy. 12. Ymlaen llaw. 14. Swn. 15. Fai. 18. Triswllt. 20. Erchwyn. 21. Anadlu. 22. Danadl. 23. Gwallt.
- Enillydd:**
Alice H. Jones, 4 Nant Ffynnon, Nant Peris.

Dyddiadur y Mis

EBRILL:

Gwener 1: BRYNREFAIL - Cyfarfod Pregethu yng Nghapel MC Brynrefail. Pregethwr fydd y Parchedig W. Gareth Edwards o'r Wyddgrug.

PENISARWAUN - Litani a Myfyrdod yn Eglwys Santes Helen am 10.30.

Sadwrn 2 - YR ARDAL - Yr Amgueddfa Lechi yn y Gilfach Ddu yn ail-agor.

Sul, 3: PENISARWAUN - Cymun Teuluol dwy-ieithog am 10.00 o'r gloch. Gosber yn Gymraeg am 5 o'r gloch.

YR ARDAL - Cyngerdd gan Gôr Godre'r Garth yng Nghapel Coch, Llanberis am 8 o'r gloch.

Mawrth, 5: PENISARWAUN - Festrîr Pasg am 7 o'r gloch.

Iau, 7: WAUNFAWR - Sefydliad y Merched - ymweliad aelodau o Sefydliadau Bethel a Brynrefail.

Gwener, 8: LLANBERIS - Te yr Henoed.

Llun, 11: YR ARDAL - Yr ysgolion yn ailddechrau.

LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Mawrth, 12: DEINIOLLEN - Clwb Elidir.

LLANRUG - Merched y Wawr -

sgwrs gan Mrs Eira Lewis Roberts 'Byd Geiriau'.

LLANBERIS - 'Malu ar yr Awyr' - yn yr Erw Fair.

Mercher, 13: BETHEL - Merched y Wawr - Arddangosfa Coginio gan Mrs Antoinette Hughes o Goleg Glynllifon.

Iau, 14: LLANRUG - Clwb Blodau'r Grug.

CWM-Y-GLO - Cangen Merched y Wawr yn ymweld â Theatr Gwynedd.

Sadwrn, 16: YR ARDAL - Ffair Wanwyn Merched y Wawr Arfon yng Nghaernarfon.

Llun, 18: DEINIOLLEN - Merched y Wawr.

LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Mawrth, 19: WAUNFAWR - Noson Gwin a Chaws yng Ngwesty'r 'Snowdon Park' er budd Muscular Dytrophy.

Mercher, 20: LLANRUG - Ffair Wanwyn yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch. Mynediad 25c. Yr elw at yr Ysgol Feithrin a Mam a'i Phram.

Gwener, 22: LLANBERIS - Te yr Henoed.

Llun, 25: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Iau, 28: WAUNFAWR - Merched y Wawr - Cwis gyda Changen Llandwrog yn Neuadd yr Eglwys.

Gwener, 29: WAUNFAWR - Ffair Wanwyn Clwb Gwryfai.

Sadwrn, 30: YR ARDAL - Cwmni Drama Rhuthun yn cyflwyno drama mewn tair act 'Congrinero'r Gorllewin' yn Theatr Seilo am 7.30. Tocynnau £1.



SIOP AMAN Stryd Fawr

DEINIOLLEN Ffôn: Llanberis 871 210

Mae'r siop yn awr ar ei hail flwyddyn ac yn mynd o nerth i nerth

RHYDDID I'R LOLFA!

I GYHOEDDI PETHAU DIFYR I CHI !!

Onid grantiau neu beidio, dyma wledd arall o bethau i'ch diddanu a'ch diddori...

A Oes Heddwch?

John Cox £2.25
Ffeithiau ac effeithiau'r ras arfau a rhyfel niwclear wedi'u cyflwyno mewn dull byw a graffig iawn. Cyf. Guto Prys ap Gwynfor.

Dyfroedd Dieflig

Stokes Day £2.45
Nofel antur wych am bump o derfysgwyr yn cipio llwyth o wastraff niwclear o Atomfa Trawsfynydd.

POSTERI

Diarhebion Cymru

Hywel Harries Set o 6—£3
6 phoster trawiadol a lliwgar iawn yn darlunio rhai o ddarhebion Cymru yn null ffraeth, unigryw Hywel Harries.

The Scottish Trip

Colin Palfrey £1.65
Hanes llond Transit o gefnogwyr rygbi ar eu siwrne alcoholaidd iawn i Gaeredin!

Cyfres y Beirdd Answyddogol

Y tair cyfrol ddiweddar—

12. DU / Sheelagh Thomas £1.45
13. SONEDAU BORE SADWRN Iwan Llwyd £1.45
14. PUM MUNUD ARALL Lona Mari Walters £1.45

Myfi, Derec

Derec Tomos £2.45
'Fel Rhech yn Ugain Oed'—hunangofiant gonest bardd a chrafwr ifanc disglair!
DIM GRANT gan y Kremlin Llyfrau.

DIM GRANT chwaith i lyfr arall anfarwol o ddoniol, sef **TWYLL DYN** gan Eirwyn Pontshân. Yn dal ar werth am y pris colledus o £1.95!

...A mwy o eitemau cysylltiedig â

CADWGAN!

3 POSTER lliw-llawn —60c yr un
LLYFR NODIADAU Cadwgan —20c
PAPUR SGRIFENNU ac Amlen
—£1.20 am becyn o 10

Anfon am ein Catalog newydd 48-tudalen: ar gael am ddim drwy'r post oddi wrth—

Y Lolfa

TALYBONT, CEREDIGION ffôn 097086/304

CHWARAEON



O AMGYLCH LLYN TEGID, Y BALA

AR BRYNHAWN Sadwrn, Gorffennaf 2, 1983, cynhelir y ras fini farathon gyntaf erioed yn hanes yr Urdd. Gan ddechrau yng Ngwersyll Glan-llyn fe ddilynir y ffordd o amgylch Llyn Tegid trwy Lanuwchllyn a'r Bala yn ôl i Lan-llyn. Y bwriad yw cynnal taith redeg neu loncian o naws gymdeithasol Gymreig, ac a fydd yn agored i bob oed.

Bydd gwobrau i unigolion; i deuluoedd; i glybiau a chymdeithasau, ac wrth gwrs, i aelodau unigol a thimau canghennau'r Urdd. Bydd y cystadlaethau i unigolion a thimau canghennau'r Urdd yn seiliedig ar grwpiau oedran penodol. Ceir gwobr arbennig i'r Gangen o'r Urdd gyda'r nifer o redwyr - tlws yn dynodi'r gefnogaeth orau i Fini Firi Farathon 1983.

Tâl Ymuno

Nid oes tâl ar aelodau'r Urdd, ond fe godir tâl o £2.00 ar unigolion (heb fod yn aelodau'r Urdd); £3.00 am deulu, a £1.00 yr aelod am dim yn cynrychioli Clwb neu Gymdeithas. Noddi:

Gwelir y ras yn gyfle da i godi arian at achosion arbennig o ddewis y cystadleuwyr, ac fe anfonir ffurflenni

noddi ar ôl derbyn y ffurflen gais.

Gellir codi arian at achos arbennig, at yr Urdd, neu tuag at y Clwb neu'r Gymdeithas a gynrychiolir.

Bydd yr Urdd yn argraffu crysau arbennig ar gyfer yr achlysur. Os oes unrhyw un am gael un, y prif fydd £6.00 am grys chws a £2.50 am grys T. Gellir anfon y tâl wrth gofrestru am y ras.

Ebrill 30ain yw dyddiad cau ar gyfer derbyn y ffurflenni cystadlu, a rhaid eu hanfon gyda'r tâl priodol i'r Trefnydd Chwaraeon, Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth.

Mae nifer gyfyngedig o ffurflenni cystadlu ar gael gan Dafydd W. Thomas, Bron-y-Nant, Llanrug, neu gan Elfed Roberts, Swyddfa'r Urdd, Stryd yr Eglwys, Caernarfon (Ffôn 3117).

Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS** Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

BRWYDR Y CEWRI LLANBERIS V Y FELINHELI (Cwpan Iau Gogledd Cymru)

MAE LLAWER yn edrych ymlaen am y gêm rhwng Llanberis a'r Felinheli yn rownd gyn-derfynol Cwpan Iau Gogledd Cymru, ac nid cefnogwyr y ddau dim yn unig mohonynt. Gellir dadlau mai'r Felinheli yw tîm mwyaf llwyddiannus Cynghrair Caernarfon yn ystod y ddau dymor diwethaf, ond ni ellir diystyru Llanberis o bell ffordd, oherwydd mae traddodiad a dyfal-barhad a dycnwch o'u plaid - y ffactorau rheini sydd wedi eu cadw ymhlith y tri neu bedwar tîm mwyaf llwyddiannus yng Ngogledd Cymru dros degawd diwethaf, a hyd yn oed cyn hynny yn nyddiau aur y chwedegau.

Y Felinheli sydd ar hyn o bryd yn hwylio ar frig y don, ac yn sgorio goliau yn rheolaidd, ond mae marc cwestiwn ynglŷn ag agwedd nifer o'u chwaraewyr, yn enwedig pan fo pethau'n dechrau mynd o chwith iddynt. Dangoswyd hyn mewn gêm cwpan ddiweddar yn erbyn Llanrug. Roedd y Felinheli yn or-hyderus ac yn edrych ar y gêm fel cyfle i ymarfer sgorio, ond yn wahanol i ganlyniadau diweddar Llanrug, roedd y cochion yn edrych yn llawer mwy bygythiol ar ddechrau'r gêm. Y canlyniad oedd i amddiffynfa'r Felinheli ddechrau petruso a gadael blaenwyr Llanrug trwodd. Yn fuan, roeddynt wedi gofodi cefnwyr y Felinheli i ddefnyddio tactegau anghyfreithlon ac aeth nifer o enwau i lyfr bach du y dyfarnwr. Gallai un neu ddau eu cyfrif eu hunain yn lwcus i fod ar y cae ar ddiwedd y gêm. Er hynny,

roedd eu miniogrwydd o flaen y gôl yn ddigon i ennill y gêm, ond dangoswyd eu gwendidau, a gall Llanberis fanteisio ar hynny. Nid oes yn Llanberis y math o chwaraewyr sy'n chwilio am siambar sorri pan fo pethau'n mynd o chwith, a gall gôl yn fuan yn y gêm fod yn ddigon i roi ambell i chwaraewr o'r Felin oddi ar ei echel. Credaf fod cymeriad tîm Llanberis yn gryfach ac edrychaf ymlaen am eu gweld yn y "ffeinal" yn erbyn Llanfairpwll neu Dref Dinbych.

AR WERTH

Vauxhall Viva 1971
59,000 milltir yn unig
Ffôn:
CAERNARFON 3515

CYNGHRAIR GWYNEDD DECHRAU - A DIWEDD?

Y WYBODAETH ddiweddaraf ynglŷn â'r gynghrair pêl-droed newydd - Cynghrair Gwynedd (ar ddyddiad mynd i'r Wasg) yw fod naw o dimau wedi gwneud cais am ymaelodi, gan gynnwys pump o dimau o Gynghrair Caernarfon, sef Bethesda, y Felinheli, Harlech, Llanberis a Phorthmadog. Mae tri o glybiau Môn wedi gwneud cais - Llanfairpwll, Llandegfan a Chaergybi, ac un yn unig o Ddyffryn Conwy, sef Conwy Res.

Mae llawer o glybiau Cynghrair Caernarfon yn anniddig iawn ynglŷn â'r Gynghrair newydd, a fwriadwyd fel cam rhwng y Cynghreiriau lleol a chynghrair Gogledd Cymru. Os derbynnir y 5 clwb o Gynghrair Caernarfon i Gynghrair Gwynedd, ni fydd ond 7 o dimau yn weddill, a'r cwestiwn yw a ellir cynnal cystadleuaeth gyda chyn lleied o nifer?

Mewn cyfarfod diweddar o Bwyllgor Rheoli Cynghrair Caernarfon mynegwyd cryn bryder ynglŷn ag oblygiadau sefydlu'r Gynghrair newydd. Nid oes hyd yma, amryw reolau pendant wedi eu gosod ynglŷn â'r Gynghrair, ac ni

wyddys i sicrwydd a fydd dyrchafu a gostwng iddi ac ohoni.

Nid yw'r clybiau sydd eisoes wedi gwneud cais am ymuno yn rhy siŵr a fyddant yn chwarae ail dim yn y Gynghreiriau lleol, a phe digwyddai iddynt gael eu siomi gan safon a threfniant Cynghrair Gwynedd, a fydd Cynghrair Caernarfon yn bod iddynt i ddychwelyd iddi. Mae cred gyffredinol ymysg clybiau Cynghrair Caernarfon fod pêl-droed ar safon iau yn cael ei aberthu ar allor hunan-bwysigrwydd swyddogion Cynghrair Gogledd Cymru a'u bwriad o fawrygu eu cynghrair eu hunain trwy sefydlu Cynghrair Gwynedd.

GEMAU CWPAN CYNGHRAIR CAERNARFON CWPAN ALVES

2il rownd

Felinheli v Llanberis
Pwllheli v Bethel

Yn y rownd gyn-derfynol bydd y Felinheli neu Llanberis yn chwarae Nantlle neu Fethesda, a Phwllheli neu Fethel yn chwarae Nefyn neu Harlech.

CWPAN WIL EVANS

2il rownd

Llanberis v Pwllheli

Yr enillydd i gyfarfod â Bethesda neu Mt Rangers yn y rownd gyn-derfynol.

CWPAN MOORINGS

2il rownd

Bethesda v Bethel

Llanberis v Penrhyn neu Porthmadog

Yr enillwyr i gyfarfod yn y rownd gyn-derfynol.

Llanrug v Felinheli

Yr enillydd i gyfarfod Hiracl neu Bwllheli yn y rownd gyn-derfynol.

CWPAN IEUENCTID

Rownd gyn-derfynol

Llanberis v Bethesda neu Gaernarfon

Gobeithir cynnal cystadlaethau 5 bob ochr y Gynghrair yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol yn ystod gwyliau'r Pasg. Yn y rownd gyntaf bydd Llanberis yn chwarae Nefyn, a Llanrug yn chwarae'n erbyn Bethel.